Independent Office for Police Conduct

# Marwolaethau yn ystod neu ar ôl cyswllt â'r heddlu

## Ystadegau ar gyfer Lloegr a Chymru 2023/24

# Diolchiadau

Arweiniodd Melanie O'Connor ac Aleksander Stojkowski gynhyrchu a dadansoddi'r adroddiad hwn, gyda cymorth gan Kira Godley yn y tîm ymchwil yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH). Diolchwn i gydweithwyr SAYH a helpodd i gasglu a gwirio'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn neu i gynorthwyo ei ryddhau. Hoffem ddiolch hefyd i swyddogion a staff mewn heddluoedd ledled Lloegr a Chymru a ddarparodd wybodaeth ac a ymatebodd i'n hymholiadau.

## Manylion cyswllt

E-bostiwch research@policeconduct.gov.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad hwn.

## Ystadegau cenedlaethol

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â'r *Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007*. Pan ddynodir ystadegau yn Ystadegau Gwladol mae'n ofyniad statudol fod y Cod Ymarfer yn cael ei ddilyn.

Mae'r dynodiad hwn yn golygu bod yr ystadegau:

- yn ateb anghenion a adnabyddir i ddefnyddwyr
- wedi cael eu hesbonio'n dda ac yn hwylus i'w cyrchu
- yn cael eu cynhyrchu yn unol â dulliau cadarn
- yn cael eu rheoli'n ddiduedd ac yn wrthrychol er budd y cyhoedd

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 5
2. Canfyddiadau cyffredinol ..... 7
3. Marwolaethau traffig ffyrdd ..... 11
4. Enghreifftiau o saethu marwol ..... 15
5. Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny ..... 16
6. Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu ..... 24
7. Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu: ymchwiliadau annibynnol yn unig ..... 26
8. Nodyn cefndir ..... 33
A. Atodiad A: tablau ychwanegol ..... 36

# Rhestr o dablau a ffigurau


**Tabl 2.1** Digwyddiadau fesul math o farwolaeth a math o ymchwiliad, 2023/24

**Tabl 2.2** Marwolaethau fesul math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2013/14 i 2023/24

**Tabl 2.1** Digwyddiadau fesul math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2013/14 i 2023/24

**Tabl 3.1** Math o farwolaeth traffig ffordd, 2013/14 i 2023/24

**Tabl 3.2** Math o ddigwyddiad traffig ffordd, 2013/14 i 2023/24

**Tabl 5.1** Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny: rheswm dros gadw, 2023/24

**Tabl 6.1** Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny: rheswm dros gadw, 2023/24

**Tabl 7.1** Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu: rheswm dros gysylltiad, 2023/24

**Tabl A1** Digwyddiadau fesul math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2013/14 i 2023/24

**Tabl A2** Math o farwolaeth fesul rhyw, 2023/24

**Tabl A3** Math o farwolaeth fesul grŵp oedran, 2023/24

**Tabl A4** Math o farwolaeth fesul ethnigrwydd, 2023/24

**Tabl A5** Math o farwolaeth fesul awdurdod priodol, 2023/24

# 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ffigurau ar farwolaethau yn ystod neu'n dilyn cysylltiad â'r heddlu a ddigwyddodd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae'n darparu set pendant o ffigurau ar gyfer Lloegr a Chymru, a throsolwg o natur ac amgylchiadau y digwyddodd y marwolaethau hyn ynddynt.

Y cyhoeddiad hwn yw'r ugeinfed mewn cyfres o adroddiadau ystadegol ar y pwnc hwn, a gyhoeddir yn flynyddol gan y SAYH.

Rydym yn archwilio amgylchiadau'r holl farwolaethau a atgyfeirir atom i gynhyrchu'r ystadegau hyn. Rydym yn penderfynu os yw'r marwolaethau yn ateb y meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn yr adroddiad hwn o dan un o'r categorïau canlynol:

- marwolaethau traffig ffyrdd
- saethiadau marwol
- marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny
- hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu
- marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad a'r heddlu oedd yn destun ymchwiliadau annibynnol

Mae blwch A yn darparu diffiniad ar gyfer pob un o'r categorïau hyn.

Gweler y ddogfen ganllaw ar wefan y SAYH am ddiffiniadau manylach.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am yr adroddiad yn y nodyn cefndir ar dudalen 33.

## Blwch A: Diffiniadau o gategorïau marwolaethau yn ystod neu'n dilyn cysylltiad a'r heddlu.

Gweler y ddogfen ganllaw ar ein gwefan am ddiffiniadau manwl a gwybodaeth am sut mae'r achosion marwolaeth yn cael eu categoreiddio a'u cofnodi.

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'heddlu' yn cynnwys sifiliaid heddlu, swyddogion heddlu a staff o'r holl sefydliadau o dan awdurdodaeth SAYH. Gweler nodyn cefndir 2 am ragor o wybodaeth. Nid yw marwolaethau personél heddlu neu ddigwyddiadau yn ymwneud â phersonél heddlu oddi ar ddyletswydd yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau yn yr adroddiad hwn.

**Mae marwolaethau traffig ffyrdd** yn cynnwys marwolaethau modurwyr, seiclwyr neu gerddwyr yn codi o ymholiadau gan yr heddlu, cerbydau heddlu yn ymateb i alwadau brys a gweithgaredd arall yn ymwneud â thraffig gan yr heddlu.

Nid yw hyn yn cynnwys:

- marwolaethau yn dilyn digwyddiad traffig ffordd (RTI) lle y mynychodd yr heddlu ar unwaith ar ôl y digwyddiad fel gwasanaeth brys

**Mae saethiadau marwol** yn cynnwys marwolaethau lle taniodd swyddogion heddlu yr ergyd farwol gan ddefnyddion arf tanio confensiynol.

**Mae marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny** yn cynnwys marwolaethau sy'n digwydd tra bod unigolyn yn cael ei arestio neu'i gymryd i'r ddalfa. Mae'n cynnwys marwolaethau pobl sydd wedi cael eu harestio neu eu cadw gan yr heddlu o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983*. Gall y farwolaeth fod wedi digwydd mewn adeilad heddlu, preifat neu feddygol, mewn man cyhoeddus neu mewn cerbyd heddlu neu gerbyd arall.

Mae hyn yn cynnwys marwolaethau sy'n digwydd:

- yn ystod neu'n dilyn dalfa'r heddlu lle digwyddodd anafiadau a gyfrannodd at y farwolaeth yn ystod y cyfnod cadw
- yn neu ar y ffordd i ysbyty (neu adeilad meddygol arall) yn ystod neu'n dilyn trosglwyddo o fan arestio neu ddalfa'r heddlu
- o ganlyniad i anafiadau neu broblemau meddygol eraill a adnabyddir neu sy'n datblygu tra bod unigolyn yn y ddalfa
- tra bod unigolyn yn nalfa'r heddlu wedi cael ei gadw o dan Adran 136 y *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* neu ddeddfwriaeth berthynol arall

Nid yw hyn yn cynnwys:

- hunanladdiadau sy'n digwydd ar ôl i unigolyn gael ei ryddhau o ddalfa'r heddlu
- marwolaethau sy'n digwydd lle gelwir ar yr heddlu i helpu staff meddygol i ddal pob yn ôl sydd ddim wedi cael eu harestio

**Mae hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu** yn cynnwys hunanladdiadau ymddangosiadol sy'n digwydd o fewn dau ddiwrnod o ryddhau o ddalfa'r heddlu. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys hunanladdiadau ymddangosiadol sy'n digwydd y tu hwnt i ddau ddiwrnod o ryddhau o'r ddalfa, lle gall yr amser a dreuliwyd yn y ddalfa fod yn berthnasol i'r farwolaeth.

**Mae marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu** yn cynnwys marwolaethau sy'n dilyn cysylltiad â'r heddlu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nad oedd yn cynnwys arestio neu gadw o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* ac roeddent yn ddarostyngedig i ymchwiliad annibynnol. Mae ymchwiliad annibynnol yn cael ei benderfynu gan y SAYH ar gyfer y digwyddiadau mwyaf difrifol sy'n achosi'r lefel uchaf o bryder cyhoeddus, sydd a'r potensial mwyaf i effeithio ar gymunedau, neu sydd â goblygiadau difrifol i enw da gwasanaeth yr heddlu. Ers 2010/11, mae'r categori hwn wedi cynnwys marwolaethau lle mae ymchwiliad annibynnol wedi bod yn unig, neu lle mae un yn parhau. Mae hyn er mwyn gwella cysondeb mewn adrodd am y marwolaethau hyn.

Gall hyn gynnwys marwolaethau sy'n digwydd:

- ar ôl i'r heddlu gael eu galw i fynychu digwyddiad domestig sy'n arwain at farwolaeth
- tra bod unigolyn yn ymdrechu'n weithredol i osgoi arestio, gan gynnwys enghreifftiau lle mae'r farwolaeth wedi'i hunan-gyflawni
- pan fydd yr heddlu yn mynychu sefyllfa o warchae, gan gynnwys lle mae unigolyn yn lladd ei hun neu rywun arall
- ar ôl i gyswllt gael ei wneud â'r heddlu ynghylch pryderon am les unigolyn a bod pryder am natur ymateb yr heddlu

# 2 Canfyddiadau cyffredinol

Yn ystod 2023/24, roedd:

- 32 marwolaeth traffig ffyrdd
- 2 saethiad marwol gan yr heddlu
- 24 marwolaeth yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny
- 68 hunanladdiad ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu
- 60 o farwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu oedd yn destun ymchwiliadau annibynnol gan y SAYH

Mae gwybodaeth ddemograffig am y rheini a fu farw yn cael ei chyflwyno yn y penodau canlynol, ynghyd â manylion am amgylchiadau'u marwolaethau a chrynodeb o ddata tuedd. Mae'r atodiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth, fel oedran, rhyw ac ethnigrwydd y rheini a fu farw, a gwybodaeth am y llu heddlu neu awdurdod priodol dan sylw. (Mae'r awdurdod priodol fel arfer yn brif swyddog neu'n gomisiynydd heddlu a throseddu.)

Mae rhai o'r amgylchiadau ymchwiliadau i'r marwolaethau a gofnodir yn yr adroddiad hwn yn parhau ar adeg cyhoeddi. Mae manylion am natur ac amgylchiadau'r achosion hyn yn seiliedig ar wybodaeth ar gael ar adeg dadansoddi.

Roedd Lloegr a Chymru o dan gyfyngiadau symud oherwydd y pandemig coronafeirws am ran fawr o 2020/21. Ar yr adeg hon, nid yw'n bosibl dweud â sicrwydd pa effaith gafodd hyn ar y nifer o fathau o ryngweithiadau y cafodd aelodau'r cyhoedd â'r heddlu. Dylid cymryd gofal wrth gymharu data o 2020/21 â blynyddoedd blaenorol a dilynol.

## Ymchwiliadau

Pan ddywedir wrthym am farwolaeth, rydym yn ystyried amgylchiadau'r achos ac yn penderfynu os yw ymchwiliad yn angenrheidiol. Os ydym yn penderfynu bod ymchwiliad yn angenrheidiol, rydym wedyn yn dewis dull yr ymchwiliad. Rydym yn gallu dewis ymchwilio'n annibynnol, i gyfarwyddo ymchwiliad, neu y dylai'r achos gael ei ymchwilio'n lleol gan yr heddlu.

Mae gan bob llu heddlu adran safonau proffesiynol (PSD) neu adran gyfatebol, sy'n goruchwylio ymdrin â chwynion a materion ymddygiad penodol. Mewn rhai amgylchiadau, rydym yn penderfynu mai'r PSD sydd yn y lle gorau i ymchwilio i achos yn lleol.

Ers Chwefror 2020, nid yw ymchwiliadau wedi'u goruchwylio a'u rheoli ar gael mwyach fel dull ymchwilio. Cafodd dull newydd - 'Ymchwiliad wedi'i gyfarwyddo' - ei greu. Mae'r rhain yn digwydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth SAYH, ond gan ddefnyddio adnoddau heddlu.

Mae blwch B ar dudalen 10 yn cynnwys disgrifiad o bob math o ymchwiliad.

Mae tabl 2.1 yn dangos y math o ymchwiliad ar adeg dadansoddi ar gyfer pob digwyddiad yn cynnwys cofnodi marwolaeth yn 2023/24. Mae'r ffigurau yn dangos y nifer o ddigwyddiadau. Mae digwyddiad yn arwain at ymchwiliad unigol yn gallu cynnwys mwy nac un marwolaeth ac felly gall cyfanswm y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer rhai categorïau fod yn is na chyfanswm y marwolaethau a gyflwynir uchod. Ymchwiliodd y SAYH yn annibynnol i gyfanswm o

102 o ddigwyddiadau.

Nid yw tabl 2.1 yn cynnwys ffigurau ar gyfer ymchwiliadau wedi'i goruchwylio a'u rheoli rhagor gan y digwyddodd yr holl farwolaethau yn yr adroddiad hwn o Ebrill 2023 ymlaen. Ni ymdriniwyd a digwyddiadau gan ymchwiliad wedi'i gyfarwyddo ar draws pob categori marwolaeth.

**Tabl 2.1 Digwyddiadau fesul math o farwolaeth a math o ymchwiliad, 2023/24**

| Math o ymchwiliad | Digwyddiadau traffig ffyrdd | Saethiadau marwol | Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny | Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu | Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Annibynnol** | 23 | 2 | 20 | 0 | 57 |
| **Wedi'u cyfarwyddo** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Lleol** | 4 | 0 | 2 | 23 | 0 |
| **Yn ôl i'r llu** | 2 | 0 | 2 | 45 | 0 |
| **Cyfanswm digwyddiadau** | 29 | 2 | 24 | 68 | 57 |

Nodwch: Math o ymchwiliad fel y cofnodwyd ar system achosion SAYH ar adeg dadansoddi.
* Mae'r categori hwn yn cynnwys achosion sy'n ddarostyngedig i ymchwiliad annibynnol yn unig.

# Tueddiadau

Mae'r ffigurau yn nhabl 2.2 yn dangos y nifer o farwolaethau ar draws y gwahanol gategorïau ers 2013/14. Ni fyddai'n ystyrlon i gynhyrchu dadansoddiad tuedd ar draws pob un o'r pump categori. Mae hyn oherwydd yr amrywiaeth eang yn yr amgylchiadau a'r newidiadau i sut mae'r categori 'marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu' yn cael ei ddiffinio.

**Tabl 2.2 Marwolaethau fesul math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2013/14 i 2023/24**


| | Marwolaethau | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn ariannol | | | | | | | | | | |
| **Categori** | **13/14** | **14/15** | **15/16** | **16/17** | **17/18** | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **22/23** | **23/24** |
| **Marwolaethau traffig ffyrdd** | 12 | 14 | 21 | 32 | 29 | 42 | 24 | 25 | 40 | 28 | 32 |
| **Saethiadau marwol** | 0 | 1 | 3 | 6 | 4 | 3 | 3 | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny** | 11 | 18 | 14 | 14 | 23 | 17 | 18 | 19 | 11 | 23 | 24 |
| **Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu** | 70 | 71 | 61 | 56 | 57 | 63 | 54 | 55 | 57 | 54 ~ | 68 |
| **Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu*** | 44 | 43 | 106** | 131 | 178 | 156 | 107 | 97 | 111 | 91~ | 60 |

* Newid mewn diffiniad o 'farwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad' yn 2010/11 i gynnwys achosion yn ddarostyngedig i ymchwiliad annibynnol yn unig.

** Ehangu adnoddau a chapasiti ymchwiliadol i gyflawni mwy o ymchwiliadau annibynnol i faterion difrifol a sensitif - mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y nifer o 'farwolaethau cysylltiad eraill' sy'n cael eu hadrodd.

~ Mae'r tabl hwn yn cyflwyno'r set ddiweddaraf o ffigurau ar gyfer y categorïau hyn; dangosir unrhyw newidiadau i ddata a gyhoeddwyd yn flaenorol.

**Ffigur 2.1 Digwyddiadau fesul math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2013/14 i 2023/24**




Mae'r nifer o **ddigwyddiadau traffig ffyrdd (RTI)** wedi cynyddu eleni, gyda 29 digwyddiad, o gymharu â 26 llynedd. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd o 24 digwyddiad a gofnodwyd dros y cyfnod 11 mlynedd ers 2013/14 Mae'r ffigurau hyn yn destun amrywiad ac, felly, dylid ystyried cymariaethau blwyddyn ar flwyddyn â gofal.

Eleni roedd dau **saethiad marwol gan yr heddlu**, o gymharu â thri llynedd. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd o dri saethiad marwol a gofnodwyd ers 2013/14.

Mae'r nifer o **farwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny** wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf o 23 i 24. Dros amser, mae rhywfaint o amrywiad wedi bod yn y categori hwn, gyda chodiadau nodedig wedi'u cofnodi yn 2010/11, 2014/15, 2017/18 a 2022/23. Mae ffigur 2023/24 yn uwch na'r cyfartaledd o 17 marwolaeth dros y cyfnodd 11 mlynedd.

Roedd y nifer o hunanladdiadau **ymddangosiadol a gofnodwyd yn dilyn y ddalfa** yn 68, yn nodedig o uwch na'r 54 marwolaeth a gofnodwyd llynedd. Mae'r nifer o farwolaethau yn y categori hwn yn aros yn uwch na'r cyfartaledd a gofnodwyd dros y blynyddoedd cyn 2012/13, pan oedd cynnydd nodedig. Mae'n nifer uchaf o farwolaethau ers 2014/15, pan oedd 71 hunanladdiad. Mae adrodd am y marwolaethau hyn yn dibynnu ar heddluoedd yn gwneud y cysylltiad rhwng hunanladdiad ymddangosdiadol rhywun a'i gadw yn y ddalfa yn ddiweddar. Gall y cynnydd cyffredinol yn y marwolaethau hyn dros y cyfnod ers 2012/13 gael ei ddylanwadu gan adnabod gwell ac atgyfeirio'r fath achosion.

Nid yw'r categori **'marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu'** yn cael ei gynnwys yn Ffigur 2.1. Mae cynnwys marwolaeth yn y categori hwn yn dibynnu ar a ydym yn penderfynu agor ymchwiliad annibynnol i mewn i'r amgylchiadau o'i gwmpas. Gall y meini prawf ar gyfer gwneud y penderfyniad hwn amrywio dros amser - er enghraifft, mewn ymateb i bryderon cyhoeddus a chymunedol. Yn 2015/16 cynyddodd ein capasiti i gyflawni ymchwiliadau annibynnol, a gafodd effaith uniongyrchol ar y nifer o farwolaethau a adroddwyd yn y categori hwn. (Gweler ein cynllun Corfforaethol 2015-18 a chynllun Strategol 2018-22 am ragor o wybodaeth.) Mae hyn yn golygu na fyddai dadansoddi tueddiadau marwolaethau a gofnodwyd yn y categori hwn yn ystyrlon.

Mae ffigurau ar bob digwyddiad marwol (yn wahanol i farwolaethau) yn cael eu darparu yn Nhabl A1 yn yr atodiad. Mae'r atodiad hefyd yn cynnwys data ar:

- ethnigrwydd
- oedran
- rhyw

- llu heddlu
- categori marwolaeth

Rydym wedi cyhoeddi ystadegau blynyddol ar farwolaethau yn ystod neu'n dilyn cysylltiad a'r heddlu ers 2004/05. Mae adroddiadau blaenorol a data cyfres amser ar gael ar ein gwefan.

## Blwch B Mathau o ymchwiliad

**Mae ymchwiliadau annibynnol** yn cael eu cyflawni gan ymchwilwyr SAYH ei hun. Mae gan ymchwilwyr SAYH holl bwerau'r heddlu mewn ymchwiliad annibynnol.

**Mae ymchwiliadau wedi'u cyfarwyddo** yn ymchwiliadau SAYH sy'n cael eu cyflawni gan ddefnyddio adnoddau'r heddlu. Mae SAYH yn gosod y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad ac mae'n cyfarwyddo cwrs yr ymholiadau. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, mae ymchwiliwr yr heddlu yn cyflwyno adroddiad yr ymchwiliad i SAYH i'w adolygu.

**Mae ymchwiliadau lleol** yn cael eu cyflawni gan y llu heddlu. Mewn achosion marwolaeth ac anaf difrifol, mae'r llu yn anfon yr adroddiad i'w adolygu ar ddiwedd yr ymchwiliad.

**Mae 'atgyfeiriwyd yn ôl at y llu'** yn dangos achosion lle mae SAYH wedi adolygu'r amgylchiadau a dychwelyd y mater i'r llu heddlu i ddelio a nhw fel y mae'n ystyried yn briodol.

# 3

# Marwolaethau traffig ffyrdd:

## Demograffeg

Yn 2023/24, roedd 29 digwyddiad traffig ffordd marwol yn ymwneud â'r heddlu (RTI), gan arwain at 32 marwolaeth. O'r rheini a fu farw, roedd 26 yn ddynion a chwech yn fenywod, Roedd tri ar hugain yn Wyn, pedwar yn Asiaidd, tri yn Ddu a dau o bobl o ethnigrwydd arall.

Roedd saith o'r bobl o dan 18 oed. Roedd deuddeg arall o bobl a fu farw rhwng 18 a 30 oed, ac roedd yr unigolyn hynaf yn 81 mlwydd oed. Yr oedran ar gyfartaledd oedd 34 oed. Mae'r oedran ar gyfartaledd yn gostwng i 25 oed os oedd yr ymadawedig yn yrrwr neu deithiwr mewn cerbyd oedd yn cael ei ymlid neu'n ffoi. Mae'n cynyddu i 46 oed os oedd yr ymadawedig yn gerddwr, seiclwr neu yrrwr neu deithiwr mewn cerbyd a darwyd naill ai gan yr heddlu neu'r cerbyd sy'n cael ei ymlid neu'n ffoi.

## Amgylchiadau marwolaeth

Mae digwyddiadau yn cael eu dosbarthu fel 'ymwneud ag ymlid' os oeddent yn cynnwys ymlid, neu sefyllfaoedd lle roedd swyddogion wedi dechrau i 'ddilyn' cerbyd dan amheuaeth. Nid pob un o'r digwyddiadau hyn fydd wedi mynd i mewn i gam ymlid swyddogol fel y'i diffinnir yn yr Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ar ymlidiau'r heddlu. (Gweler Coleg Plismona (2015) Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar ymlidiau'r heddlu.)

Digwyddiadau lle roedd gwrthdrawiad yn ymwneud â cherbyd a gafodd ei ymlid yn ddiweddar gan yr heddlu, ond lle roedd yr heddlu wedi colli golwg ar y cerbyd, yn cael eu cynnwys. Mae digwyddiadau lle roedd yr heddlu yn gyrru i gyfeiriad cerbyd cyn cael caniatâd i ymlid hefyd yn cael eu cynnwys fel ymwneud ag ymlid.

### Ymwneud ag ymlid

Roedd 22 o ddigwyddiadau yn ymwneud â'r heddlu'n ymlid, a arweiniodd at 24 marwolaeth. O'r marwolaethau hyn:

- Roedd pedwar ar ddeg o bobl yn yrwyr cerbydau oedd yn cael eu hymlid gan yr heddlu pan gawsant wrthdrawiad
- roedd pedwar o bobl yn yrwyr neu deithwyr yn y car oedd yn cael ei ymlid gan yr heddlu
- roedd pedwar o bobl yn yrwyr neu deithwyr cerbyd nad oedd yn berthynol, a gafodd ei daro gan y car oedd yn cael ei ymlid
- roedd un unigolyn yn gerddwr a gafodd ei daro gan y car oedd yn cael ei ymlid gan yr heddlu
- roedd un unigolyn yn gerddwr a gafodd ei daro gan heddlu yn ymlid

Ymchwiliodd y SAYH yn annibynnol i 18 o'r digwyddiadau'n ymwneud ag ymlid. Cafodd tri eu hymchwilio'n lleol gan yr heddlu a chafodd un ei ddychwelyd i'r llu i fynd i'r afael ag ef fel y gwelsant yn addas.

## Perthynol i ymateb argyfwng

Mae'r categori hwn yn cynnwys pob digwyddiad sy'n cynnwys cerbyd heddlu yn ymateb i gais am gymorth brys. Digwyddodd un digwyddiad yn ymwneud ag ymateb brys yn 2023/24 gan arwain at un farwolaeth. Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei ymchwilio'n annibynnol.

Mae'r nifer hon wedi haneru o'r ddau ddigwyddiad a dwy farwolaeth a gofnodwyd llynedd. Mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn hon yn dangos y nifer isaf o ddigwyddiadau a marwolaethau ers 2016/2017, pan roedd sero a'r un nifer o ddigwyddiadau a marwolaethau ag yn 2020/21, pan oedd un.

Roedd un marwolaeth yn ymwneud â cherbyd yn gwrthdaro â beic modur. Roedd yr heddlu yn ymateb i adroddiad o ymosodiad yn digwydd yn gyhoeddus.

## Gweithgaredd traffig heddlu arall

Mae'r categori hwn yn cynnwys RTI na ddigwyddodd yn ystod gweithgaredd yn ymwneud ag ymlid neu ymateb brys. Roedd chwe digwyddiad yn 2023/24 yn arwain at saith marwolaeth. Mae pedwar digwyddiad yn cael eu hymchwilio'n annibynnol. Ymdrinnir ag un digwyddiad yn lleol gan y llu heddlu dan sylw ac fe wnaethom atgyfeirio un digwyddiad yn ôl at y llu heddlu perthnasol.

O'r chwe digwyddiad hwn, digwyddodd dau pan ymatebodd cerbyd i bresenoldeb yr heddlu:

- Roedd gan sifiliad heddlu mewn cerbyd heddlu wedi'i nodi orchudd dros ei oleuadau glas gan ei fod yn cael ei yrru i gael ei wasanaeth. Roedd beic modur oddi ar y ffordd yn teithio i'r cyfeiriad gwrthwyneb. Nid oedd y reidiwr yn gwisgo helmed. Ymddangosai i reidiwr y beic modur ymateb i gerbyd yr heddlu a datganodd tyst yr ymddangosai i reidiwr y beic modur roi cip dros ei ysgwydd i edrych i gyfeiriad cerbyd yr heddlu. Gwrthdarodd y beic modur. Bu farw gyrrwr y beic modur yn y fan a'r lle. Fe wnaethom ddychwelyd yr achos i'r llu i fynd i'r afael ag ef fel y gwelsant yn addas.
- Gwelodd swyddogion ar batrol mewn cerbyd heddlu wedi'i nodi gerbyd yn gyrru dros y terfyn cyflymder yn y cyfeiriad gwrthwyneb. Fe wnaethant benderfynu troi eu cerbyd o gwmpas, ysgogi eu goleuadau glas, a gyrru ar ôl y car. Adroddodd y swyddogion na allent weld y car yn ystod y daith hon, felly fe wnaethant ddiffodd eu goleuadau glas a throi eu cerbyd o gwmpas i barhau â'u taith wreiddiol. Ar yr adeg hon, tystiodd y swyddogion i'r cerbyd yn troi ar y gerbydffordd gyferbyn. Trodd y swyddogion eu cerbyd o gwmpas wedyn i barhau yn yr un cyfeiriad â'r car, ond collon nhw olwg arno. Gwelsant y cerbyd eto yn troi ar y gerbydffordd gyferbyn a gwneud yr un tro. Credai'r swyddog yn sedd y teithiwr fod gyrrwr y car yn ymwybodol o gerbyd yr heddlu ac roedd yn ceisio dianc rhag yr heddlu. Sawl eiliad yn ddiweddarach, parhaodd y swyddogion ar hyd y ffordd lle gwnaethant ganfod bod y car wedi gwrthdaro i mewn i ddwy goeden ar y llain ganol. Roedd gyrrwr y cerbyd wedi cael ei daflu o'r car. Cafodd triniaeth feddygol ei ddarparu a chafodd y gyrrwr ei gymryd i'r ysbyty, lle bu farw'n ddiweddarach. Roedd yr achos hwn yn destun ymchwiliad annibynnol.

Digwyddodd y pedwar digwyddiad oedd yn weddill tra bod yr heddlu ar batrol arferol neu ddyletswyddau gyrru:

- Roedd swyddogion yn cymryd rhan mewn hebryngiad beic modur heddlu awdurdodedig. Roedd hyn yn cynnwys pedwar o hebryngwyr beic modur arbenigol wedi'u lleoli o gwmpas cerbyd. Reidiodd un o feicwyr modur yr heddlu tuag at groesfan cerddwyr pan wrthdarodd â cherddwr, a gafodd ei daro i'r llawr. Darparodd swyddogion a pharafeddygon gymorth cyntaf yn y fan a'r lle. Cafodd y cerddwr ei gludo i'r ysbyty lle bu farw'n ddiweddarach. Roedd yr achos hwn yn destun ymchwiliad annibynnol.
- Roedd ymchwiliwr golygfa trosedd mewn fan heddlu wedi'i nodi yn mynychu cais am gymorth fforensig. Ar y ffordd, roedd gwrthdaro benben â'i gilydd rhwng fan yr heddlu a char. Datganodd tystion fod y car ar yr ochr anghywir o'r ffordd. O ganlyniad i'r gwrthdaro, bu farw gyrrwr a theithiwr y car yn y fan a'r lle. Ymdrinnir â'r digwyddiad hwn yn lleol gan y llu heddlu dan sylw.

- Roedd swyddogion yn gyrru mewn cerbyd heddlu wedi'i nodi yn ymateb i ddigwyddiad brys. Cafodd goleuadau glas a seirenau cerbyd yr heddlu eu hysgogi. Roedd aelod o'r cyhoedd yn teithio ar feic modur o flaen y cerbyd heddlu. Ymddangosai car o flaen y beic modur i arafu a breciodd reidiwr y beic modur. Gwrthdarodd y beic modur â chefn y car. Cafodd y reidiwr ei daflu o'i feic modur a glaniodd yn y gerbydffordd gyferbyn. Cafodd y reidiwr ei daro wedyn gan gar yn dod tuag ato. By farw gyrrwr y beic modur yn y fan a'r lle. Roedd yr achos hwn yn destun ymchwiliad annibynnol.
- Arestiodd swyddogion ddyn a chafodd ei roi o fewn ardal gaets cefn fan yr heddlu. Tra yn y fan, dechreuodd y dyn daro ochr y fan â'i ben, gan achosi anafiadau i'w hun. Ysgogodd yr heddlu oleuadau glas a seirienau brys y fan cyn gadael y man. Agosaodd fan yr heddlu at gyffordd â goleuadau traffig. Roedd y goleuadau traffig yn goch ac roedd aelod o'r cyhoedd yn croesi'r ffordd. Parhaodd fan yr heddlu trwy'r golau coch, gan wrthdaro a'r unigolyn oedd yn croesi'r ffordd. Cafodd yr aelod o'r cyhoedd ei drin gan wasanaeth yr heddlu yn ogystal a'r ambiwlans ond cyhoeddwyd ef yn farw yn y fan a'r lle gan barafeddygon yn fuan ar ôl y gwrthdrawiad. Roedd y digwyddiad hwn yn destun ymchwiliad annibynnol.

## Tueddiadau

Eleni, bu farw 32 o bobl mewn 29 digwyddiad ar wahân. Roedd cynnydd mewn marwolaethau eleni o 28 i 32. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd o 27 marwolaeth digwyddiad traffig ffordd a gofnodwyd dros y cyfnod 11 mlynedd ers 2013/14 Mae'r ffigurau hyn yn destun amrywiad ac, felly, dylid ystyried cymariaethau blwyddyn ar flwyddyn â gofal.

Mae tablau 3.1 a 3.2 yn amlinellu'r math o farwolaethau a digwyddiadau traffig ffyrdd dros y 11 mlynedd diwethaf. Mae'r tablau yn dangos yn y tri chategori a ddisgrifiwyd yn flaenorol: yn ymwneud ag ymlid, yn ymwneud ag ymateb brys, a gweithgaredd traffig heddlu arall. Mae gwybodaeth ar farwolaethau a digwyddiadau o 2004/05 ar gael yn y tablau cyfres amser ar wefan [policeconduct.gov.uk](policeconduct.gov.uk).

Eleni roedd cynnydd yn y nifer o ddigwyddiadau'n ymwneud ag ymlid. Mae'r nifer o 22 digwyddiad yn ymwneud ag ymlid yn uwch na'r cyfartaledd o 17 digwyddiad a welwyd dros yr 11 mlynedd diwethaf.

Roedd cynnydd yn y nifer o farwolaethau'n ymwneud ag ymlid eleni, o 20 i 24. Roedd cynnydd hefyd yn y nifer o ddigwyddiadau'n ymwneud ag ymlid a arweiniodd at farwolaethau lluosog. Roedd dau ddigwyddiad yn cyfrif am bedair marwolaeth, gyda dwy farwolaeth yn y ddau ddigwyddiad. Mae'r nifer o farwolaethau'n ymwneud ag ymlid eleni yn uwch na'r cyfartaledd o 20 marwolaeth a gofnodwyd dros y cyfnod 11 mlynedd ers 2013/14.

Mae'r flwyddyn hon wedi gweld gostyngiad yn y nifer o ddigwyddiadau a marwolaethau'n ymwneud ag ymateb brys. Mae'r ffigurau o un digwyddiad ac un farwolaeth am y flwyddyn hon, yn is na'r cyfataledd o ddau ddigwyddiad a dwy farwolaeth ers 2013/14

Mae'r nifer o chwe digwyddiad yn deillio o weithgaredd traffig arall yr heddlu wedi aros yr un peth ag yn y flwyddyn flaenorol, gyda'r nifer o farwolaethau yn codi o un. Mae'n uwch na'r cyfataledd o bum digwyddiad a phum marwolaeth dros yr 11 mlynedd diwethaf, ond tua thraean o'r nifer o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 2004/05.

**Tabl 3.1 Math o farwolaeth traffig ffordd, 2013/14 i 2023/24**

| Math o RTI | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn ymwneud ag ymlid** | 10 | 7 | 13 | 28 | 17 | 30 | 19 | 20 | 34 | 20 | 24 |
| **Perthynol i ymateb brys** | 0 | 0 | 2 | 0 | 8 | 5 | 3 | 1 | 3 | 2 | 1 |
| **Arall** | 2 | 7 | 6 | 4 | 4 | 7 | 2 | 4 | 3 | 6 | 7 |
| **Cyfanswm y marwolaethau** | **12** | **14** | **21** | **32** | **29** | **42** | **24** | **25** | **40** | **28** | **32** |

**Tabl 3.2 Math o ddigwyddiad traffig ffordd, 2013/14 i 2023/24**

| Math o RTI | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn ymwneud ag ymlid** | 9 | 6 | 12 | 24 | 17 | 21 | 19 | 15 | 27 | 18 | 22 |
| **Perthynol i ymateb argyfwng** | 0 | 0 | 2 | 0 | 7 | 5 | 3 | 1 | 3 | 2 | 1 |
| **Arall** | 2 | 7 | 6 | 4 | 3 | 7 | 2 | 4 | 3 | 6 | 6 |
| **Cyfanswm digwyddiadau** | **11** | **13** | **20** | **28** | **27** | **33** | **24** | **20** | **33** | **26** | **29** |

# 4

# Saethiadau marwol

Eleni roedd dau saethiad marwol gan yr heddlu, o gymharu â thri digwyddiad a gofnodwyd llynedd. Mae amgylchiadau'r ddau saethiad marwol yn cael eu crynhoi isod. Mae un yn destun ymchwiliad annibynnol sy'n parhau ac mae'r llall wedi'i gwblhau.

- Cyrhaeddodd swyddogion mewn eiddo yn dilyn adroddiadau bod dyn gwyn arfog 30 oed yn honedig wedi torri i mewn i eiddo, ac roedd yn ceisio mynd i mewn i ystafell wely lle roedd preswylwyr wedi baricedio'u hunain.

  Cyrhaeddodd swyddogion tîm ymateb a gorfodi mynediad i mewn i'r eiddo. Wrth iddynt fynd i mewn i'r cyfeiriad tynnodd y ddau swyddog eu Taserau. Ar ôl iddynt fynd at y dyn yn y grisiau, chwifiodd gleddyf yn eu cyfeiriad sawl gwaith. Cyfarwyddodd un swyddog y dyn i "ddangos ei ddwylo" a heriodd ef â Thaser, na chafodd ei ddefnyddio. Tynnodd swyddogion yn ôl ac wedyn gofynnon nhw am gymorth ar ôl iddi ddod yn amlwg na fyddai'r dyn yn cydymffurfio. Daeth uned arfau tanio i mewn i'r eiddo wedyn a cheisio trafod â'r dyn hefyd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu yr ymddangosodd i''r dyn godi bwa croes wedi'i lwytho tuag at y swyddogion. Taniodd un o'r swyddogion ddwy ergyd at y dyn, gan ei daro yn y gwddf a'r frest. Meddiannodd swyddogion yr arfau ar unwaith a dechreuon nhw gymorth cyntaf. Mynychodd Gwasanaeth Ambiwlans Llundain a'r Gwasanaeth Hofrennydd Brys (HEMS), ond bu farw'r dyn yn y fan a'r lle.

- Derbyniodd yr heddlu alwad gan ddyn Gwyn 40 oed, a ddywedodd wrthynt fod ganddo arfau tanio a'i fod am niweidio'i hun.

  Aeth Swyddogion Ymateb Arfog o Wasanaeth Heddlu'r Metropolitan i gyfeiriad y dyn. Siaradodd swyddogion a'r dyn a chafodd ymdrechion at drafod eu gwneud. Mae adroddiadau gan swyddogion wedyn yn disgrifio'r dyn yn dod at y drws blaen â gwn llaw du yn ei law chwith ac yn ei bwyntio tuag at ddau swyddog a daniodd ddwy ergyd Darparodd y swyddogion gymorth cyntaf ond cyhoeddwyd y dyn yn farw yn y fan a'r lle. Cafodd yr hyn oedd yn ymddangos i fod yn arf tanio heb ei ddosbarthu gan yr heddlu ei leoli yn agos at y dyn a chafodd un arall ei adfer o'r tu mewn i'r eiddo.

# 5

# Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny

## Demograffeg

Yn 2023/24, bu farw 24 o bobl yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny - roedd 22 yn ddynion a dwy yn fenywod. Amrywiai eu hoedran o 28 i 59 oed. Roedd 21 o bobl yn Wyn, roedd un unigolyn yn Ddu, roedd un unigolyn o ethnigrwydd cymysg, roedd un unigolyn o ethnigrwydd arall.

Roedd gan bedwar ar bymtheg o bobl bryderon iechyd meddwl. Roedd y mathau o bryderon iechyd meddwl yn cynnwys iselder, gorbryder, anhwylder deubegynol. sgitsoffrenia paranoid, anhwylder personoliaeth a hunan-niweidio. Roedd un unigolyn wedi cael ei gadw o dan adran 136 y *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983*.

Roedd hi'n hysbys fod gan un ar hugain o bobl gysylltiad ag alcohol a/neu gyffuriau. Golygai hyn ar adeg eu harestio eu bod wedi cymryd, wedi meddwi gan, mewn meddiant o, neu fod ganddynt broblemau hysbys ag alcohol a/neu gyffuriau. Lle cafodd achos marwolaeth ei adrodd, cofnododd patholegydd fod gwenwyno gan alcohol neu gyffuriau, neu gamddefnydd tymor hir, yn debygol o fod yn ffactor cyfrannol at farwolaethau naw o bobl.

**Mae Tabl 5.1** ar dudalen 17 yn dangos y rhesymau pam y cafodd pobl eu harestio neu'u cadw gan yr heddlu.

**Tabl 5.1 Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny: rheswm dros gadw, 2023/24**

| Rheswm dos gadw | Nifer o farwolaethau |
|---|---|
| Methiant i ymddangos mewn llys | 7* |
| Troseddau goryrru/gyrru | 3** |
| Yn ymwneud â thrais (heb fod yn rhywiol neu lofruddiaeth) | 3 |
| Troseddau rhywiol (delweddau o blant) | 1 |
| Rhwystro/gwrthsefyll swyddog heddlu | 2*** |
| *Deddf Iechyd Meddwl 1983* | 1 |
| Llosgi Bwriadol | 1 |
| Meddiant o arf | 1 |
| Lladrad | 1 |
| Ymddygiad bygythiol/aflonyddu | 1 |
| Torri'r heddwch/ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1^ |
| Difrod troseddol | 1^^ |
| Cipio | 1~ |
| **Cyfanswm y marwolaethau** | **24** |

* Cafodd dau o'r bobl hyn eu harestio am droseddau'n ymwneud â chyffuriau/perthynol i ddiod, cafodd un unigolyn hefyd ei arestio am droseddau'n ymwneud â thrais
(heb fod yn rhywiol neu lofruddiaeth) a chafodd un unigolyn ei arestio hefyd am ladrad a throseddau'n ymwneud â thrais (heb fod yn rhywiol neu lofruddiaeth)

** Cafodd un o'r bobl hyn ei arestio am droseddau'n ymwneud â chyffuriau/diod

*** Cafodd un o'r bobl hyn ei arestio hefyd am dorri'r heddwch/ymddygiad gwrthgymdeithasol

^ Cafodd yr unigolyn hwn ei arestio hefyd am droseddau'n ymwneud â thrais (heb fod yn rhywiol neu lofruddiaeth)

*** Cafodd yr unigolyn hwn ei arestio hefyd am dorri'r heddwch/ymddygiad gwrthgymdeithasol

~ Cafodd yr unigolyn hwn ei arestio hefyd am lofruddiaeth/dynladdiad

Mae'r data yn dangos bod 14 o'r 24 o bobl a fu farw wedi cael rhywfaint o rym wedi'i ddefnyddio yn eu herbyn gan swyddogion neu aelodau'r cyhoedd cyn eu marwolaethau. Mae'n bwysig i nodi na chyfrannodd y defnydd o ddal yn ôl, neu fathau eraill o rym, o angenrheidrwydd at y marwolaethau.

Cafodd pob un o'r 14 o'r 24 o bobl a gafodd rym wedi'i ddefnyddio yn eu herbyn eu dal yn ôl yn gorfforol gan yr heddlu neu aelodau o'r cyhoedd. Mae'r term 'dal yn ôl' yn cyfeirio at amrediad o weithredoedd, gan gynnwys daliadau corfforol a chymhwyso pwysedd. Nid yw'n cynnwys y defnydd o gyffion dwylo, heblaw y cafodd ffurf arall o ddal yn ôl ei ddefnyddio hefyd. O'r 14 o bobl a gafodd eu dal yn ôl yn gorfforol roedd 13 yn Wyn, ac roedd un o ethnigrwydd cymysg.

Roedd chwech o'r 24 digwyddiad yn cynnwys defnydd o rym yn cynnwys atalwyr coesau. Roedd pedwar yn cynnwys defnydd o atalwyr coesau yn unig, roedd un digwyddiad yn cynnwys atalwyr coesau ynghyd â'r defnydd o gwfl poeri (cwfl rhwyllau sy'n cael ei osod dros ben unigolyn i'w gwneud yn anodd iddo boeri ar unigolyn arall), ac roedd y digwyddiad arall yn cynnwys atalwyr coesau ochr yn ochr â'r defnydd o chwistrell analluogi PAVA.

## Amgylchiadau marwolaeth

Mae achos marwolaeth yn ôl adroddiad y patholegydd yn dilyn archwiliad post-mortem yn cael ei adrodd ar gyfer tri ar ddeg o'r rheini a fu farw. Mewn lleiafrif o achosion, gall archwiliad post-mortem beidio â chael ei gyflawni. Yn yr achosion hyn, mae achos y farwolaeth yn cael ei gymryd o gofnodion y meddyg sy'n ardystio'r farwolaeth. Os yw achos y farwolaeth yn cael ei herio'n ffurfiol ar adeg y dadansoddi, bydd achos y farwolaeth yn cael ei gofnodi fel 'disgwyliedig'. Mewn cwest, mae achos y farwolaeth yn cael ei bennu'n ffurfiol a gall newid o achos y farwolaeth a restrir mewn adroddiad patholegydd. Mae SAYH yn ymchwilio'n annibynnol i 20 o'r 24 marwolaeth.

Aeth pymtheg o bobl yn sâl neu nodwyd eu bod yn sâl mewn **cell heddlu**. Cafodd un ar ddeg eu cludo i'r ysbyty lle buon nhw farw'n ddiweddarach. Bu farw pedwar o bobl mewn cell heddlu.

Amlinellir y 15 achos hyn isod.

- Cafodd dyn ei arestio am rwystro'r heddlu yn eu dyletswyddau yn dilyn gweithrediad a gynlluniwyd i atal cerbyd. Roedd yr heddlu'n amau ei fod wedi cuddio cyffuriau oedd wedi bod yn y cerbyd. Ataliodd swyddogion y dyn

ar y llawr, tra'n gofyn iddo beth oedd wedi gwneud â'r cyffuriau. Gwiriodd y swyddogion y tu mewn i geg y dyn. Ni chanfuwyd unrhyw gyffuriau. Cafodd y dyn ei gymryd i swyddfa'r heddlu, lle cafodd ei noeth chwilio mewn cell heddlu. Ni chanfuwyd unrhyw gyffuriau. Cafodd y dyn ei osod wedyn ar arsylwadau 30 munud. Y diwrnod nesaf, yn ystod un gwiriad, ymddangosai nad oedd y dyn yn dda yn ei gell ac ymddangosai ei fod yn cael trawiad. Cafodd cymorth meddygol ei ddarparu gan staff y ddalfa a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol hyd i barafeddygon gyrraedd a chymryd at y driniaeth. Perfformiodd parafeddygon adfywio cardio-anadlol (CPR), ond cyhoeddwyd bod y dyn yn farw yn fuan wedyn. Disgwylir am achos ei farwolaeth.

- Cafodd menyw ei harestio yn dilyn digwyddiad domestig yn ei chartref. Yn ystod yr arestio, cafodd y fenyw ei hatal ar y llawr. Disgrifiodd swyddogion ei bod yn feddw iawn. Cafodd y fenyw, a ddatgelodd ei bod yn dibynnu ar alcohol a chyffuriau, ei chymryd i swyddfa heddlu lle cafodd ei roi ar wiriadau 'deffro' 30 munud. Ar argymhelliad gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, cafodd y gwiriadau eu newid wedyn i 'arsylwi parhaus'', a darparwyd meddyginiaeth iddi ar gyfer symptomau diddyfnu. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. adroddodd swyddog hebrwng cadw ei bod yn ymddangos bod y fenyw yn cael trawiad. Mynychodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, ond aeth y fenyw yn anymatebol. Cyrhaeddodd parafeddygon a pherfformio adfywio cardio-anadlol. Bu farw'r fenyw yn y fan a'r lle yn fuan wedyn Disgwylir am achos ei marwolaeth.
- Cafodd dyn ei stopio gan swyddogion gan ei fod yn eisiau ar alwad yn ôl i'r carchar. Yn ystod ei arestio, taflodd y dyn yr hyn roedd swyddogion yn amau i fod yn gyffuriau. Cafodd ei chwilio yn y fan a'r lle ond ni chanfu swyddogion unrhyw gyffuriau. Cafodd y dyn ei gymryd i'r ddalfa mewn fan heddlu. Yn ystod cludiant i'r ddalfa, dangosodd CCTV yr ymddangosai i'r dyn lyncu dau becyn. Tra mewn cell ddal yn y ddalfa, datganodd y dyn ei fod yn 'diddyfnu'. Yn ystod y weithdrefn fewngofnodi, cafodd y dyn ei arestio ymhellach am drosedd yn ymwneud â chyffuriau mewn perthynas â'i weithredoedd mewn taflu'r cyffuriau a amheuwyd i ffwrdd yn ystod arestio. Cafodd noeth chwiliad ei gyflawni yn y ddalfa, â chanlyniad negyddol. Yn ystod y weithdrefn fewngofnodi, gofynnodd y dyn i weld nyrs. Cafodd y dyn ei asesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a chafodd cynllun gofal ei argymell. Cafodd ei leoli mewn cell wedi'i monitro gan CCTV a'i roi ar wiriadau 30 munud. Ychydig oriau'n ddiweddarach mae CCTV yn dangos y dyn yn ymddangos i gael sawl trawiad yn ei gell. Datganodd staff y ddalfa iddynt arsylwi CCTV a gwelsant fod y dyn yn gorwedd mewn safle rhyfedd ac y gallai fod wedi cael rhywbeth o gwmpas ei wddf. Fe wnaethant gyflawni gwiriad lles. Yn ystod y gwiriad hwn, fe wnaethant nodi nad oedd y dyn yn dda a phan fynychodd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ei gell roedd y dyn yng nghanol trawiad. Darparodd staff y ddalfa a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gymorth meddygol. Mynychodd parafeddygon wedyn a chymryd yr awenau. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty lle bu farw yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a. Gwenwyn cocên*.
- Cafodd dyn ei arestio am drosedd yn ymwneud â chyffuriau a methu ag ymddangos mewn llys. Yn ystod ei arestio, cafodd y dyn ei atal a'i roi mewn cyffion dwylo. Gwelodd swyddogion fod y dyn wedi rhoi rhywbeth yn ei geg, y gwnaethant ymdrechu i'w dynnu. Credwyd a chadarnhawyd yn ddiweddarach bod yr eitem yn ei geg yn cynnwys cyffuriau. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty gan swyddogion am wiriad meddygol cyn cael ei gymryd i'r ddalfa. Mae cofnod y ddalfa yn datgan y rhoddodd y dyn wybod i swyddogion ei fod wedi cymryd cyffuriau y diwrnod hwnnw. Cafodd noeth chiliad ei gyflawni ac ni chanfuwyd eitemau. Roedd y dyn wedyn yn destun gwiriadau 30 munud. Yn ystod cadw'r dyn, cafodd ei archwilio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ar sawl achlysur a rhoddwyd meddyginiaeth iddo am ddiddyfnu o gyffuriau. Yn ystod gwiriad rheolaidd cwpl o ddyddiau'n ddiweddarach, canfuwyd fod y dyn yn anymatebol. Perfformiodd swyddogion adferiad cardio-anadlol (CPR) hyd y cyrhaeddodd parafeddygon a chymryd yr awenau. Cafodd y dyn ei gymryd

i ysbyty mewn ambiwlans. Cyhoeddwyd ef yn farw yn fuan ar ôl cyrraedd yr ysbyty. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a) gwenwyn Morffin*.

- Cafodd dyn ei arestio a'i gymryd i'r ddalfa. Roedd lluniau fideo a wisgwyd ar y corff yn dangos bod y dyn wedi cynhyrfu yn ystod yr arestiad a gwnaeth swyddogion ei atal. Cofnododd sarsiant y ddalfa yr ymddangosai'r dyn i fod o dan ddylanwad alcohol. Datgelodd y dyn ei fod wedi dioddef o ddiddyfnu o alcohol a'i fod wedi dioddef o drawiadau yn flaenorol. Cafodd y dyn ei roi ar wiriadau 30 munud. Yn fuan wedyn, gofynnodd y dyn i weld archwiliwr meddygol y llu (FME). Datgelodd ei fod wedi cael dau drawiad ar y galon yn flaenorol. Cynghorodd y FME na fyddai'r dyn yn cael ei archwilio ar y pryd oherwydd yr honnwyd ei fod wedi meddwi. Y diwrnod nesaf, cafodd ei asesu gan FME a chodwyd nifer o bryderon meddygol. Yn ystod gwiriad cell ychydig yn ddiweddarach, canfuwyd nad oedd y dyn yn ymateb. Perfformiodd swyddogion adferiad cardiopwlmonaidd (CPR) hyd y cyrhaeddodd parafeddygon a chymryd yr awenau at y cymorth cyntaf. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty mewn ambiwlans lle bu farw yn fuan wedyn. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a Methiant fentriglol chwith dwys, 1b Cardiomyopathi yn ymwneud ag alcohol gyda ffibrosis myocardiaidd.*

- Cafodd dyn ei arestio am dorri'r heddwch yn dilyn adroddiad ei fod yn dioddef o episod iechyd meddwl. Dechreuodd y dyn wrthsefyll swyddogion yn ystod ymdrech i'w gadw. Ataliodd swyddogion y dyn a gosod atalwyr coesau, yna fe wnaethant ei godi i fan heddlu. Credai'r swyddogion fod y dyn yn dioddef o darfu ymddygiadol dwys, felly fe wnaethant ei gymryd i ysbyty am sylw meddygol. Tra yn yr ysbyty, cafodd y dyn ei ddadarestio am dorri'r heddwch a'i arestio ymhellach am affräe. Cafodd ei ryddhau o'r ysbyty a'i gymryd i'r ddalfa. Wrth gyrraedd y ddalfa, cafodd y dyn ei chwilio. Cafodd ei wirio wedyn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Cafodd y dyn ei symud wedyn i gell CCTV ar arsylwadau 30 munud. Am awr gyntaf ei gadw, roedd hyn yn cynnwys ei ddeffro. Y bore nesaf, sylwodd swyddog ar ei fonitor CCTV fod y dyn yn gorwedd ar y llawr ac ymddangosai ei fod yn cael trawiad. Aeth swyddog i mewn i gell yr heddlu a galwodd i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fynychu gan fod y dyn yn anymatebol. Canfu'r swyddog dystiolaeth o gyffuriau ar fatres y dyn. Cyrhaeddodd parafeddygon a chafodd y dyn ei gymryd i ysbyty mewn ambiwlans. Bu farw'r dyn chwe diwrnod yn ddiweddarach.

- Cafodd dyn ei arestio am yrru tra o dan ddylanwad alcohol. Wrth gyrraedd ystafell y ddalfa, gwelodd swyddogion ên y dyn yn symud mewn symudiad cnoi. Cafodd y dyn ei noeth chwilio a chafodd ei gofnodi na chafodd eitemau eu canfod. Yn ystod y chwiliad noeth, nid oedd y dyn yn cydymffurfio ac roedd yn gwrthsefyll yn gorfforol. Cafodd chwistrell analluogi PAVA ei ddefnyddio ac ataliodd swyddogion y dyn a gosod atalwyr coesau. Cafodd y dyn ei gymryd i gell arall lle cafodd ei asesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Yn ystod yr archwiliad, aeth y dyn yn sâl ac yn anymatebol. Rhoddwyd cymorth meddygol i'r dyn a galwyd am ambiwlans. Cafodd ei gymryd i ysbyty a bu farw yn fuan ar ôl cyrraedd. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a. Gwenwyn cocên gydag afiechyd coronaodd y rhydweliau*.

- Cafodd dyn ei arestio yn dilyn ymrafael â staff diogelwch a gwnaeth fygythiadau i'w niweidio tra'n mynychu llys. Mynychodd swyddogion y digwyddiad a thra'u bod nhw'n chwilio'r dyn, ymddangosai iddo syrthio am yn ôl ar risiau'r llys. Cafodd y dyn ei arestio a'i gymryd i'r ddalfa mewn fan heddlu. Wrth gyrraedd y ddalfa, cafodd y dyn ei roi mewn cell a chafodd gwiriadau 'goruchwyliaeth a deffro cyson' eu rhoi mewn grym. Cafodd y dyn ei asesu wedyn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, a argymhellodd iddo gael ei gymryd i ysbyty. Y noson honno, cafodd ei ryddhau o'r ysbyty a dychwelodd yr heddlu ef i'r ddalfa. Cafodd swyddogion ychwanegol eu galw i fynychu'r ddalfa ar gyfer goruchwyliaeth agos o'r dyn tra'i fod yn ei gell. Yn fuan ar ôl hyn, cafodd y dyn ei weld yn syrthio'n anymwybodol yn ei gell. Darparodd swyddogion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol adferiad cardio-anadlol (CPR) ar unwaith i'r dyn, yn ogystal ag atodi diffibriliwr hyd y cyrhaeddodd ambiwlans. Cafodd CPR ei barhau hyd fod gan y dyn bwls. Cafodd y dyn

ei gymryd i ysbyty lle bu farw bedwar diwrnod yn ddiweddarach. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a. Bronconiwmonia ac allsugnad cynnwys gastrig 1b. Anaf ymennydd hypocsig isgemig 1c. Ataliad cardiaidd a thystiolaeth o ddefnydd cocên*.

- Cafodd dyn ei arestio dan amheuaeth o gipio a'i gymryd i'r ddalfa. Y diwrnod nesaf, yn ystod cyfweliad heddlu, cafodd y dyn ei arestio ymhellach am lofruddiaeth honedig. Cafodd ei roi ar arsylwadau 30 munud oherwydd pryderon am ei les ac iechyd meddwl. Y bore neasf, cynhaliodd swyddog dyletswydd y ddalfa adolygiad asesiad risg. Lleihaodd y swyddog lefel arsylwi ar y dyn i wiriadau 60 munud, oherwydd nad oedd problemau wedi cael eu hadrodd yn ystod y nos, a hefyd i ganiatáu rhagor o amser o orffwys i'r dyn. Y diwrnod nesaf, cafodd y dyn ei ganfod yn anymatebol yn ei gell â chlymiad difyfyr o gwmpas ei wddf. Roedd y dyn wedi marw yn ystod y nos gan ymddangos i gymhwyso'r clymiad difyfyr rhwng amserau gwirio cell. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a Tagu â chlymiad*.
- Cafodd dyn ei arestio am dorri ei amodau mechnïaeth a chafodd ei gymryd i'r ddalfa. Cafodd ei nodi ei fod yn feddw. Datgelodd y dyn ei fod yn ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol. Cafodd noeth chwiliad ei gyflawni oherwydd bod gan y dyn hanes o guddio cyffuriau yn y ddalfa. Cafodd ei gofnodi na chanfuwyd cyffuriau. Cafodd y dyn ei roi ar wiriadau deffro 30 munud. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, cafodd asesiad risg ei gyflawni a newidiodd ei lefel arsylwi i wiriadau 60 munud. Nid oedd rhaid iddo gael ei ddeffro rhagor. Cafodd y dyn ei weld wedyn gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, a gwrthododd asesiad diddyfnu o alcohol. Y diwrnod nesaf, yn ystod gwiriad arferol, canfuwyd y dyn yn anymatebol yn ei gell. Galwodd swyddog cadw am gymorth. Cyrhaeddodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, ac â chymorth eraill, defnyddiodd ddiffibriliwr a darparodd adferiad cardio-anadlol (CPR). Cyrhaeddodd parafeddygon a chymryd at yr awenau, ond cyhoeddwyd y dyn yn farw yn fuan wedyn. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a) Bronconiwmonia dwys*.
- Cafodd dyn ei arestio am droseddau gyrru ac yn ymwneud â chyffuriau. Cafodd y dyn ei chwilio a chanfuwyd sawl pecyn, y tybiwyd oedd yn gyffuriau a reolir. Cafodd ei gymryd i'r ddalfa lle cafodd ei chwilio eto, ei roi mewn cell, a'i osod ar wiriadau 'deffro' 30 munud. Roedd y gell yn cynnwys CCTV nad oedd wedi cael ei fwriadu i gael ei ddefnyddio ar gyfer monitro parhaus. Cafodd y dyn ei weld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a'i asesu yn ffit i gael ei gadw. Yn ddiweddarach y bore hwnnw, sylwodd sarsiant y ddalfa ar CCTV y gell fod y dyn yn eistedd mewn safle anarferol ar fainc y gell. Aeth sarsiant y ddalfa i'r gell, ynghyd â swyddogion eraill, a chanfu yr ymddangosai'r dyn yn sâl. Mynychodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol y ddalfa a darparodd ofal i'r dyn. Yn ystod ei ofal, ataliodd swyddogion y dyn a rhoi cyffion dwylo ac atalwyr coesau arno i atal y dyn rhag niweidio'i hun ac eraill. Cyrhaeddodd dau ambiwlans a chymerodd y parafedydygon yr awenau o ofalu am y dyn. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty lle bu farw y diwrnod hwnnw. Disgwylir am achos ei farwolaeth.
- Cafodd dyn ei arestio dan amheuaeth o losgi a'i gymryd i'r ddalfa. Nodwyd ar gofnod y ddalfa yr ymddangosai iddo fod yn feddw. Cafodd y dyn ei roi ar arsylwadau parhaus ac yn oriau mân y bore canlynol, cafodd ei archwilio gan weithiwr gofal iechbyd proffesiynol. Datgelodd y dyn ei fod yn dioddef o boen cefn, yn dilyn cwymp ychydig ddyddiau cyn hynny. Rhoddwyd meddyginiaeth i'r dyn a chafodd ei weld ar dri achlysur arall y diwrnod hwnnw gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a ddarparodd, ar y ddau gyntaf o'r achlysuron hyn, feddyginiaeth ychwanegol ar gyfer poen ei gefn. Cafodd ei nodi fod y dyn wedi dechrau dangos arwyddion o ddiddyfnu o alcohol, fodd bynnag gwadodd hyn. Y diwrnod canlynol, cafodd y dyn ei weld bedwar tro arall gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a darparwyd meddyginiaeth iddo ar ddau o'r ymweliadau hyn ar gyfer symptomau diddyfnu. Yn gynnar y bore nesaf, cafodd y dyn ei weld ar fonitor y CCTV ar lawr ei gell. Ymddangosai'n anymatebol a chafodd ambiwlans ei alw. Cyflawnodd swyddogion adferiad cardio-anadlol (CPR) hyd y cyrhaeddodd parafeddygon a chymryd yr awenau. Cafodd y dyn ei gymryd i

ysbyty a choeddwyd ef yn farw yn fuan wedyn. Disgwylir am achos ei farwolaeth.

- Cafodd dyn ei arestio am ymosod a'i gymryd i'r ddalfa. Wrth gyrraedd y ddalfa, cafodd y dyn ei atal gan swyddogion oherwydd y gwnaeth sawl ymdrech i'w taro â'i ben. O fewn awr o gyrraedd, gosododd swyddogion gwfl poeri ar y dyn. Yn fuan ar ôl i'r dyn gael ei gymryd i gell, aeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn bryderus am iechyd y dyn gan nad oedd yn ymatebol. Gwaethygodd cyflwr y dyn yn gyflym. Cafodd cyffion dwylo'r dyn eu tynnu, a chafodd ei roi ar y llawr. Perfformiwyd adferiad cardio-anadlol (CPR) ar y dyn hyd i barafeddygon gyrraedd. Bu farw mewn ysbyty yn fuan wedyn. Disgwylir am achos ei farwolaeth.
- Cafodd dyn ei arestio am droseddau ymosod ac yn ymwneud â lladrad a'i gymryd i'r ddalfa. Datgelodd y dyn ei fod yn ddibynnol ar alcohol a chyffuriau a chafodd ei roi ar 'arsylwadau parhaus'. Ar argymhelliad gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, arsylwyd arno am arwyddion o ddiddyfnu o alcohol neu gyffuriau. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, yn dilyn archwiliad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, rhoddwyd meddyginiaeth i'r dyn ar gyfer diddyfnu o alcohol a chyffuriau. Yn gynnar y bore nesaf, yn dilyn pryderon am ddiddyfnu, cafodd ambiwlans ei alw. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty lle cafodd ei roi ar wyliadwriaeth gyson gan swyddogion. Dychwelodd y dyn am gyfnod byr i'r ddalfa cyn cael ei gymryd yn ôl i ysbyty am driniaeth ychwanegol. Tri diwrnod yn ddiweddarach, gwaethygodd cyflwr y dyn, a chyhoeddwyd ef yn farw yn ddiweddarach. Disgwylir am achos ei farwolaeth.
- Cafodd dyn ei arestio am fethu ag ymddangos mewn llys a chafodd ei gymryd i'r ddalfa. Yn ystod asesiad risg cychwynnol y dyn, datgelodd ei fod wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar yn dilyn cwymp. Datgelodd y dyn hefyd ei fod yn ddibynnol ar gyffuriau. Gwelodd y dyn weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ystod ei gadw. Yn dilyn ei asesiad cychwynnol, cafodd y dyn ei roi ar wiriadau arsylwi cyffredinol a gynyddodd yn diweddarach i arsylwadau 'agosrwydd agos' gan y datgelodd ymholiadau a wnaed gyda'r ysbyty fod sepsis ar y dyn. Cafodd ei gymryd i ysbyty am driniaeth a bu farw ychydig oriau'n ddiweddarach. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a. Hemopericardiwm 1b. Endocarditis Heintus y Falf Aortig gyda Ffurfiad a Thylliad Crawniad Gwreiddyn 1c. 2. Defnyddiwr Cyffuriau Mewnwythiennol*.

Cafodd chwech o bobl eu cymryd yn sâl **ym man yr arestio**. Cafodd tri o bobl eu cludo i'r ysbyty, lle buon nhw farw'n ddiweddarach. Bu farw tri o bobl yn y fan a'r lle.

- Cafodd heddlu eu galw i adroddiadau o ddyn yn torri i mewn i adeiladau lluosog. Lleolodd yr heddlu'r dyn a'i arestio am fyrgleriaeth. Yn dilyn ysgarmes, ataliodd yr heddlu'r dyn yn gorfforol ar y llawr a rhoi cyffion dwylo ac atalwyr coesau arno. Yn fuan ar ôl hyn, ymddangosai fod y dyn yn cael trawiad a gofynnwyd am ambiwlans. Credai swyddogion y gallai fod wedi bod yn profi tarfu ymddygiadol dwys. Yn fuan wedyn, sylwodd y swyddogion nad oedd y dyn yn anadlu. Dechreuodd swyddogion adferiad cardio-anadlol (CPR) a chafodd y cyffion dwylo ac atalwyr coesau eu tynnu. Pan gyrhaeddodd yr ambiwlans, cymerodd parafeddygon yr awenau â'r CPR. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty lle bu farw yn fuan ar ôl cyrraedd. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a) Ataliad cardiaidd a achoswyd gan wenwyn cocên*.
- Cafodd yr heddlu eu galw i eiddo yn dilyn adroddiadau bod dyn yn bygwth niweidio'i hun. Mynychodd ambiwlans cyn iddynt gyrraedd yr eiddo. Wrth gyrraedd, nid oedd yr heddlu yn gallu cael unrhyw ymateb a gorfodwyd mynediad i'r eiddo. Ymdrechodd swyddogion yr heddlu a pharafeddygon i ymgysylltu â'r dyn. Honnir iddo fynd yn ymosodol a rhoddodd wybod i'r parafeddygon ei fod wedi cymryd swm mawr o dabledi. Cafodd y dyn ei atal yn gorfforol gan swyddogion a pharafeddyg. Yn fuan wedyn, cafodd ei roi mewn cyffion dwylo a'i gymryd i ysbyty mewn ambiwlans. Yn ystod y daith i'r ysbyty cafodd y dyn ei roi mewn atalwyr coesau. Cafodd y cyffion dwylo ac atalwyr coesau eu tynnu yn fuan ar

ôl cyrraedd yr ysbyty. Oherwydd ymddygiad y dyn, a bygythiadau ychwanegol i niweidio'i hun, cafodd ei atal a'i gadw o dan Adran 136 y *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* gan swyddogion. Yn fuan wedyn, adroddodd swyddogion yr ymddangosai i'r dyn gael trawiad. Derbyniodd sylw meddygol. Ar ôl derbyn triniaeth feddygol ailosododd swyddogion yr atalwyr coesau ar sawl achlysur. Gwaethygodd cyflwr y dyn ac yn ddiweddarach y noson honno bu farw yn yr ysbyty. Disgwylir am achos ei farwolaeth.

- Aeth swyddogion i gyfeiriad i weithredu gwarant chwiliio. Wrth gyrraedd, cafodd dyn ei arestio, a chwiliodd swyddogion yr eiddo. Tra digwyddodd y chwilio, syrthiodd y dyn o ffenestr ail lawr. Gofynnwyd am ambiwlans a rhoddodd swyddogion adferiad cardio-anadlol (CPR) hyd y cyrhaeddodd parafeddygon a chymryd yr awenau. Bu farw'r dyn yn y fan a'r lle. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a. Anafiadau lluosog*.
- Cafodd dyn ei arestio am drosedd trefn gyhoeddus a difrod troseddol. Yn ystod yr arestio, sylwodd swyddog fod gan y dyn anaf i'w fraich. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty, lle yr arhosodd o dan warchodaeth yr heddlu. Tra yn yr ysbyty, honnir i'r dyn fynd yn ymosodol ac yn ystod ysgarmes cafodd ei roi ar y llawr. Cafodd cwfl poeri ac atalwyr coesau eu gosod tra'r ymdrechodd staff medygol i ddarparu triniaeth. Cafodd y dyn ei lonyddu a chafodd y cwfl poeri ac atalwyr coesau eu tynnu. Cwpl o oriau'n ddiweddarach, dioddefodd y dyn drawiadau lluosog. Bu farw yn fuan wedyn. Disgwylir am achos ei farwolaeth.
- Aeth heddlu i gyfeiriad i arestio dyn am fethu ag ymddangos mewn llys. Wrth gyrraedd gorfododd swyddogion fynediad i'r eiddo ac arestio'r dyn. Cafodd ei nodi nad oedd yn dda ac ymddangosai'n feddw iawn. Cafodd ambiwlans ei alw. Yn fuan wedyn, sylwodd swyddogion nad oedd y dyn yn anadlu a darparon nhw gymorth meddygol. Cyrhaeddodd parafeddygon a chafodd y dyn ei gymryd i ysbyty am ragor o driniaeth. Bu farw'r dyn yn ddiweddarach y noson honno. Disgwylir am achos ei farwolaeth.
- Cafodd yr heddlu eu galw i adroddiad o ddyn oedd yn honedig wedi ymosod ar rywun ac oedd fe gredwyd ag anafiadau hunan-niweidio. Mynychodd heddlu ac ambiwlans oherwydd anafiadau sylweddol i arddyrnau'r dyn. Tra yng nghefn yr ambiwlans yn derbyn triniaeth, cafodd y dyn ei arestio am anaf corfforol difriol. Datgelodd ei fod o dan ddylanwad alcohol a chyffuriau. Cafodd ei gymryd i ysbyty am driniaeth o dan hebryngiad heddlu. Gwaethygodd ei gyflwr a bu farw'n ddiweddarach. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1(a) Gwenwyn cyffuriau cymysg (cocên, pregabalin ac alcohol)*.

Cafodd dau ddyn eu cymryd yn sâl mewn **cerbyd heddlu**. Cawsant eu cymryd i ysbyty lle buon nhw farw.

- Cafodd dyn ei arestio am yrru tra o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, ac am fethu a darparu sampl anadl. Cyrhaeddodd fan heddlu, a chafodd y dyn ei atal wrth i swyddog osod cyffion dwylo. Cafodd y dyn ei chwilio a'i roi yn ardal caets fan yr heddlu. Yn ystod y daith i'r ddalfa, aeth y dyn yn sâl. Dangosodd ffilm CCTV yn fan yr heddlu tra roedd y dyn ar y llawr profodd drawiadau lluosog. Yn fuan wedyn, ceisiodd swyddog ddeffro'r dyn yn llafar sawl gwaith. Ni wnaeth y dyn ymateb, ac wrth gyrraedd y ddalfa, canfuwyd ei fod yn anymatebol. Cafodd ei dynnu o'r fan a pherfformiodd dau swyddog adferiad cardio-anadlol (CPR) hyd y cyrhaeddodd parafeddygon. Tynnodd swyddogion becyn o geg y dyn a brofodd yn ddiweddarach yn gadarnhaol am gyffuriau. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty lle bu farw yn fuan ar ôl cyrraedd. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a) gwenwyn Cocên*.
- Stopiodd swyddogion ddyn ar amheuaeth o gyflawni trosedd traffig ffyrdd. Gwrthododd ddarparu ei fanylion ac ymdrechodd i adael y man. Arestiodd y swyddogion y dyn am rwystro swyddog heddlu. Yn ystod yr arestio cafodd y dyn ei atal a'i roi mewn cyffion dwylo, yna ei roi mewn cerbyd heddlu. Gofynnodd swyddog am fan heddlu i fynychu i gludo'r dyn i'r ddalfa. Tra'n aros am fan yr heddlu, aeth y dyn yn sâl a chafodd y cyffion dwylo eu tynnu.

Yn fuan wedyn, aeth y dyn yn anymatebol. Tynnodd swyddogion ef o fan yr heddlu a'i osod ar y llawr yn y safle adfer. Cafodd ambiwlans ei alw. Darparodd swyddogion adferiad cardio-anadlol (CPR) i'r dyn cyn iddo gael ei gymryd i ysbyty, lle bu farw'n ddiweddarach. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1A Afiechyd calon isgemig dwys*.

Bu farw un fenyw yn dilyn **rhyddhad o ddalfa'r heddlu**.

- Cafodd heddlu eu galw i adroddiad o fenyw yn chwifio bwyell o gwmpas at aelodau'r cyhoedd. Cyrhaeddodd swyddog gyfeiriad ac arestiodd y fenyw am feddiant o arf bygythiol. Gwrthsafodd y fenyw ymdrechion y swyddog i'w rhoi hi mewn cyffion dwylo. Tra yr ataliodd swyddog hi, tarodd y fenyw ei thrwyn ar y llawr. Rhoddodd swyddog y fenyw mewn cyffion dwylo a'i chludo i'r ddalfa. Cafodd hi ei hasesu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a'i chymryd i ysbyty, gan fod angen triniaeth arni am anafiadau i'r wyneb. Dychwelodd y fenyw i'r ddalfa a chafodd asesiad risg ei gynnal. Cafodd hi ei rhoi ar wiriadau 30 munud. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, cafodd y fenyw ei rhyddhau o'r ddalfa. Bu farw'r fenyw dri diwrnod yn ddiweddarach. Cafodd ei marwolaeth ei hadrodd fel *Llid yr Ymennydd Bacteriaidd, Llid yr ymennydd a Thoriad Fentrigwlitis o'r Twll Llygad De sy'n Cyfathrebu Â'r Gofod Sinodrwynol*.

## Tueddiadau

Rhwng 2004/05 a 2008/09, roedd gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn yn y nifer o farwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny. Gostyngodd y marwolaethau hyn o 36 in 2004/05 i 15 marwolaeth yn 2008/09. Dros y ddwy flynedd nesaf, cynyddodd y nifer o farwolaethau yn y ddalfa i 21 yn 2010/11, cyn gostwng eto i 15 yn 2011/12 a 2012/13. Roedd gostyngiad ychwanegol yn 2013/14 i 11.

Yn 2014/15, cododd y nifer i 18 ac yna gostyngodd ac arhosodd yn sefydlog ar 14 yn 2015/16 a 2016/17. Yn 2017/18, roedd 23 marwolaeth, y nifer uchaf a gofnodwyd am ddeng mlynedd. Syrthiodd y nifer hon i 17 marwolaeth yn 2018/19 a chynyddodd ychydig i 18 yn 2019/20. Yn 2020/21 cynyddodd y nifer ychydig i 19, syrthiodd yn nodedig i 11 yn 2021/22, cyn cynyddu'n nodedig i 23 yn 2022/23 Y flwyddyn hon cynyddodd nifer y marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny i 24. Mae'r nifer o farwolaethau ar gyfartaledd yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny ers i ystadegau ddechrau yn 2004/05 yn 19.

Y flwyddyn hon, bu farw un unigolyn ar ôl gwneud ymdrech ymddangosiadol i ladd ei hun tra mewn ystafell ddalfa'r heddlu.  Roedd y digwyddiad olaf o'r math hwn yn 2016/17. Cyn hynny, roedd un digwyddiad yn 2014/15 ac un yn 2008/09. Ers 2004/05, mae'n hysbys fod wyth o bobl wedi marw o ganlyniad i weithredoedd wedi'u hunan-gyflawni tra mewn cell heddlu.

Y flwyddyn hon cafodd pedwar o bobl eu cyhoeddi'n farw mewn cell heddlu, un yn fwy nac yn 2022/23, 2021/22 a 2020/21. Yn 2019/20, bu farw un unigolyn mewn cell heddlu. Yn 2018/19, ni fu farw neb mewn cell heddlu. Yn 2017/18 roedd tair marwolaeth o'r fath.

# 6

# Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu

Mae hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn amser yn nalfa'r heddlu yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau hyn os ydynt yn digwydd o fewn dau ddiwrnod o ryddhau'r unigolyn o'r ddalfa. Maen nhw hefyd yn cael eu cynnwys os gall profiadau yn y ddalfa fod wedi bod yn berthnasol, a chafodd y farwolaeth ei hatgyfeirio at y SAYH. Efallai na ddywedir wrth yr heddlu am hunanladdiad ymddangosiadol sy'n digwydd ar ôl amser yn y ddalfa gan na all y cysylltiad fod yn eglur. Felly, gall fod mwy o farwolaethau yn yr amgylchiadau hyn nag sy'n cael eu hadrodd yma.

Nid yw'r term 'hunanladdiad' o reidrwydd yn ymwneud â dyfarniad crwner. Mae dyfarniadau yn dal i'w disgwyl yn y rhan fwyaf o achosion. Rydym yn cynnwys yr achosion hyn ar ôl ystyried natur y farwolaeth ac a yw'r amgylchiadau yn awgrymu ei fod yn weithred fwriadol, hunangyflawnedig. Er enghraifft, crogi, neu lle roedd rhywfaint o dystiolaeth o 'fwriad hunanladdiadol', fel nodyn hunanladdiad.

## Demograffeg

Roedd 68 o hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu yn 2023/24 - 60 o ddynion ac wyth menyw. Oedran cyartalog y rheini a fu farw oedd 43 oed. Yr oedran mwyaf cyffredin oedd rhwng 31 a 40 oed (19 o bobl), wedi'i ddilyn gan 51 i 60 oed (18 o bobl). Roedd yr unigolyn ieuengaf yn 18 oed (un unigolyn). Roedd chwedeg dau o'r rheini a fu farw yn Wyn. Roedd tri o bobl yn Asiaidd, dau o bobl yn Ddu ac un unigolyn o ethnigrwydd Arall.

Roedd saithdeg un y cant o'r pobl (48) wedi adnabod pryderon iechyd meddwl. O'r rhain, roedd dau wedi cael eu cadw o dan Adran 136 y *Ddeddf Iechyd Meddwl Act 1983*. Roedd pryderon iechyd meddwl eraill yn cynnwys iselder, anhwylder deubegynol, seicosis, sgitsoffrenia, straen ôl-drawmatig, paranoia, anhwylder personoliaeth, gorbryder, anhwylder rhithiol, anhwylder obsesiynol-gorfodaethol, meddyliau blaenorol neu ddigwyddiadau o ymgeisiadau at hunanladdiad, a hunan-niweidio.

Adroddwyd am dan hanner y bobl (31) yn feddw â chyffuriau a/neu alcohol ar adeg eu harestio, neu fod cyffuriau a/neu alcohol yn bresennol yn drwm yn eu ffordd o fyw. Tair ar hugain o farwolaethau yn ymwneud ag alcohol a 18 â chyffuriau.

Cafodd un o'r bobl a fu farw rym wedi'i ddefnyddio yn ei erbyn tra'n cael ei gadw o dan Adran 136 y *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.*

## Amgylchiadau marwolaeth

Digwyddodd dau ar hugain hunanladdiad ymddangsoiadol ar yr un diwrnod ag y cafodd yr unigolyn ei ryddhau o ddalfa'r heddlu. Digwyddodd saith ar hugain un diwrnod ar ôl rhyddhau, a digwyddodd 19 ddau ddiwrnod ar ôl rhyddhau.

Mae tabl 6.1 yn dangos pam y cafodd y bobl hyn eu rhoi yn y ddalfa gan yr heddlu. Roedd tri deg un o'r rheini a fu farw wedi cael eu harestio am drosedd rywiol. O'r rhain, roedd 26 yn berthynol

i droseddau rhywiol neu ddelweddau aflednais yn ymwneud â phlant. Roedd pymtheg am droseddau yn ymwneud â thrais. Rhesymau cyffredin eraill oedd ymddygiad bygythiol ac aflonyddu (wyth), lladrad/byrgleriaeth (chwech), difrod troseddol (pump), troseddau gyrru (pedwar), methu ag ymddangos mewn llys (tri), torri'r heddwch/ymddygiad gwrthgymdeithasol (tri), yn ymwneud â chyffuriau/diod (tri) a meddu ar arf (dau).

**Tabl 6.1 Marwolaethau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu: rheswm dros gadw, 2023/24**

| Rheswm dos gadw | Nifer o drefniadau cadw |
|---|---|
| Troseddau rhywiol | 31 |
| Yn ymwneud â thrais (heb fod yn rhywiol neu lofruddiaeth) | 15 |
| Difrod troseddol | 5 |
| Ymddygiad bygythiol/aflonyddu | 8 |
| Troseddau gyrru (gan gynnwys gyrru dan ddylanwad diod/cyffuriau) | 5 |
| Meddiant o arf | 2 |
| Lladrad/byrgleriaeth | 6 |
| Methiant i ymddangos mewn llys | 3 |
| Yn ymwneud â chyffuriau/diod | 3 |
| *Deddf Iechyd Meddwl 1983* | 2 |
| Torri'r heddwch/ymddygiad gwrthgymdeithasol | 3 |
| Twyll | 1 |
| Rhwystro'r briffordd | 1 |
| Camgarcharu | 1 |
| **Cyfanswm nifer y rhesymau dros gadw** | **86** |
| **Cyfanswm y marwolaethau** | **68** |

Mae'r tabl yn cyfrif y nifer o resymau gwahanol dros gadw. Gall bob unigolyn fod wedi'u cadw am un neu fwy o resymau.

Cafodd un ar bymtheg o bobl eu cadw am resymau lluosog. Mae hyn yn cymharu â 18 llynedd.

Ymdriniwyd â'r holl hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu yn lleol gan y llu heddlu dan sylw (68).

# Tueddiadau

Mae'r nifer o hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn amser yn nalfa'r heddlu yn uwch na'r 54 a gofnodwyd yn 2022/23. Mae'n nifer uchaf o hunanladdiadau ers 2014/15, pan oedd 71 hunanladdiad. Mae adrodd am y marwolaethau hyn yn dibynnu ar heddluoedd yn gwneud y cysylltiad rhwng hunanladdiad ymddangosdiadol rhywun a'i gadw yn y ddalfa yn ddiweddar. Gall codiadau neu ostyngiadau yn y marwolaethau hyn felly gael eu dylanwadu gan adnabod ac atgyfeirio'r fath achosion.

Y flwyddyn hon, ar gyfer 46% o farwolaethau, roedd y rheswm dros gadw yn ymwneud â throseddau rhywiol honedig. Y gyfran o droseddau rhywiol neu ddelweddau aflednais yn ymwneud â phlant oedd 38%. Mae'r cyfrannau hyn yn is na'r ffigurau a gofnodwyd llynedd (50% a 46% yn eu tro) ond yn uwch na ffigurau ar gyfartaledd. Y cyfrannau ar gyfartaledd ar gyfer y troseddau honedig hyn ers 2004/05 yw 36% and 30% yn eu tro.

# 7

# Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu: ymchwiliadau annibynnol yn unig.

Yn 2010/11, cafodd newid ei wneud i ddiffiniad y categori hwn. Mae'n cynnwys nawr y marwolaethau hynny yn dilyn cysylltiad â'r heddlu a ymchwiliwyd yn annibynnol gan y SAYH, yr IPCC yn flaenorol.

Yn ystod 2014/15, dechreuodd yr IPCC gyfnod arwyddoacaol o newid ac ehangu mewn ymateb i gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd y dylai fod mwy o ymchwiliadau annibynnol i mewn i faterion difrifol a sensitif. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar y nifer o farwolaethau y gwnaethom eu cofnodi yn y categori 'marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad a'r heddlu' oherwydd bod cynnwys y math hwn o achos yn yr adroddiad blynyddol yn seiliedig arnynt yn cael eu hymchwilio'n annibynnol.

Nid yw unrhyw gynnydd na gostyngiad yn y categori hwn, felly, o reidrwydd yn dangos newid yn y nifer o bobl sydd wedi marw yn dilyn rhyw fath o gysylltiad â'r heddlu.

## Demograffeg gyffredinol

Fe wnaethom ymchwilio'n annibynnol i farwolaethau 60 o bobl a fu farw yn ystod cysylltiad arall â'r heddlu neu ar ôl hynny yn ystod 2023/24. O'r marwolaethau hynny:

- Roedd trideg naw yn ddynion a 21 yn fenywod.
- Roedd pedwardeg pedwar o'r bobl yn Wyn, 11 yn Ddu, pump yn Asiaidd.
- Roedd dau o'r bobl o dan 18 oed, ac roedd wyth o bobl yn oedolion ifanc rhwng 18 a 30 oed. Roedd saith o bobl dros 60. Yr oedran ar gyfartaledd oedd 43 oed.
- Adroddwyd ychydig o dan hanner (29) o'r rhai a fu farw yn feddw gan gyffuriau a/neu alcohol ar adeg y digwyddiad, neu fod cyffuriau a/neu alcohol yn nodwedd amlwg yn eu ffordd o fyw. Cafodd cyfran debyg o'r bobl a fu farw (27) eu hadrodd i fod a phryderon iechyd meddwl.

**Tabl 7.1 Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu: rheswm dros gysylltiad, 2023/24**

| Rheswm dros gysylltu | | Nifer o farwolaethau |
|---|---|---|
| Pryder am les | Unigolyn coll | 2 |
| | Iechyd/anafiadau/meddwi/cyffredinol | 17 |
| | Hunan-niweidio/risg hunanladdiad/iechyd meddwl | 15 |
| | Yn ymwneud â'r cartref | 13 |
| | Ymddygiad bygythiol/aflonyddu | 4 |
| | **Is-gyfanswm** | **51** |
| Cysylltiad arall | Gweithredu gwarant chwilio/arestio/cynnal ymholiadau ymchwilio | 1 |
| | Gwarchae | 2 |
| | Osgoi cysylltiad/arestio | 2 |
| | Mynychu helynt | 3 |
| | Arall | 1 |
| | **Is-gyfanswm** | **9** |
| | **Cyfanswm y marwolaethau** | **60** |

# Amgylchiadau marwolaeth

Mae'r amgylchiadau a gofnodir yn cynnwys amrediad o amgylchiadau. Gall cysylltiad yr heddlu beidio â bod yn uniongyrchol â'r unigolyn a fu farw, ond â thrydydd parti, fel y gwelwyd yn rhai o enghreifftiau'r achosion. Lle rydym wedi cynnwys achos y farwolaeth, cymerir hyn o adroddiad y patholegydd yn dilyn archwiliad post-mortem.

Mewn lleiafrif o achosion, gall archwiliad post-mortem beidio â chael ei gyflawni. Yn y sefyllfa hon, mae achos y farwolaeth yn cael ei gymryd o gofnodion y meddyg a ardystiodd y farwolaeth. Bydd achos y farwolaeth yn cael ei gofnodi fel 'i'w ddisgwyl' os yw'n cael ei herio ar adeg y dadansoddi.

Y rheswm mwyaf cyffredin dros gysylltu â'r heddlu oedd pryder am les, fel y dangoswyd yn Nhabl 7.1. Bu farw pumdeg un o bobl ar ôl i bryderon gael eu codi â'r heddlu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am eu diogelwch neu les cyn eu marwolaeth. Cafodd naw marwolaeth ychwanegol eu cofnodi ar gyfer mathau eraill o gysylltiad â'r heddlu.

Cafodd cyfanswm o wyth o bobl a fu farw yn dilyn cysylltiad â'r heddlu rym wedi'i ddefnyddio yn eu herbyn. Roedd chwech o bobl yn Wyn. Cafodd pump eu hatal gan swyddogion heddlu neu gan aelodau'r cyhoedd. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod y grym a ddefnyddiwyd wedi cyfrannu at y farwolaeth. Cafodd tri dyn ataliadau coesau wedi'u gosod arnynt a chafodd un strapiau cyflym (strapiau 'bachyn a dolen' sy'n gallu cael eu clymu'n gyflym) wedi'u gosod arno. Roedd un digwyddiad yn ymwneud â'r defnydd o chwistrell analluogi, a chafodd dau ddyn eu saethu gan Taser.

# Pryder am les

O'r 51 marwolaeth a ddilynodd gysylltiad â'r heddlu oherwydd pryder am les, roedd dau o'r bobl a fu farw wedi cael eu hadrodd **ar goll**. Ni chafodd yr heddlu gysylltiad uniongyrchol â'r unigolyn a fu farw yn yr achosion hyn.

- Fe wnaeth mam roi caniad i'r heddlu, gan godi pryderon am ei merch nad oedd wedi dychwelyd adref. Cafodd manylion eu cymryd a chafodd y fenyw goll ei graddio'n 'risg uchel' Y diwrnod nesaf, cafodd y gwiriadau asesu eu hadolygu, a chafodd y fenyw ei graddio'n 'risg isel'. Ar ôl rhai ymholiadau cafodd y fenyw ei huwchraddio i unigolyn coll 'risg ganolig'. Ychydig oriau'n ddiweddarach, derbyniodd yr heddlu adroddiad fod gwryw wedi mynychu gorsaf heddlu a dywedodd fod rhywbeth wedi digwydd i'w wraig a'i blant yn ei gyfeiriad. Aeth swyddogion ar unwaith i'r cyfeiriad, gorfodon nhw fynediad, a chanfuon nhw'r fenyw yn anymwybodol ag anaf pen. Darparodd swyddogion adferiad cardio-anadlol (CPR) i'r fenyw cyn i barafeddygon gyrraedd, ond bu hi farw yn y fan a'r lle. Disgwylir am achos ei marwolaeth.

- Cafodd dyn ei adrodd ar goll o gyfeiriad ei gartref gan gyd-denantiaid ar ôl peidio â chael ei weld am wyth diwrnod. Yn fuan ar ôl i'r adroddiad gael ei wneud, cynhaliodd swyddogion heddlu waith gwybodaeth. Ychydig dros awr ers i'r alwad gael ei wneud i'r heddlu, cafodd adroddiad yr unigolyn coll ei gau, gan na chodwyd pryderon ychwanegol yn ystod y gwiriadau gwybodaeth. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, canfuwyd y dyn wedi marw gan aelod o'r cyhoedd mewn ardal gwyrdd cyhoeddus. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a Crogi*.

Dwy ar bymtheg o farwolaethau yn ymwneud ag **iechyd, anafiadau posibl, medd-dod, neu les cyffredinol yr unigolyn**. Cysylltodd trydydd parti â'r heddlu i godi pryder yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau. Yn y categori hwn

- Roedd un ar bymtheg o bobl yn ddynion ac roedd un yn fenyw.
- Roedd deuddeg yn Wyn, pedwar yn Asiaidd ac un yn Ddu.
- Yr oedrannau mwyaf cyffredin oedd 31 i 40, gyda chwech o bobl yn y grŵp oedran hwn. Yr oedran ar gyfartaledd oedd 46 oed.
- Adroddwyd bod ychydig dros hanner (8) o'r rhai a fu farw o dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau ar adeg y digwyddiad, neu ei fod yn nodwedd amlwg yn eu ffordd o fyw.
- Y ffurf fwyaf cyffredin o ddosbarthiad marwolaeth oedd achosion naturiol (saith o bobl). Roedd pedair marwolaeth yn ddamweiniol.

Roedd dau ddigwyddiad yn ymwneud â **defnydd grym**:

- Gofynnodd staff yn gweithio mewn llety byw â chymorth i heddlu ac ambiwlans am gymorth oherwydd pryderon am ddyn yn gweiddi a sgrechian yn ei ystafell. Pan fynychodd yr heddlu, gellid clywed y dyn yn gweiddi a sgrechian y tu ôl i ddrws caeëdig ystafell wely. Gorfododd swyddogion fynediad i'r ystafell, ac erbyn yr adeg honno canfuon nhw'r dyn yn anymwybodol ond yn anadlu. Dechreuodd parafeddygon roi cymorth cyntaf, ac ailenillodd y dyn ymwybyddiaeth. Dechreuodd wrthsefyll wedyn, ac ataliodd swyddogion ef trwy afael yn ei aelodau. Tawelodd parafeddygon y dyn a chafodd ei gludo i'r ysbyty lle bu farw'r diwrnod nesaf. Disgwylir am achos ei farwolaeth.
- Ymatebodd heddlu i adroddiad o ddau ddyn wedi'u hanafu â chyllell a chafodd ambiwlans ei alw. Wrth gyrraedd, siaradodd swyddogion â'r dynion a anafwyd a dywedwyd wrthynt fod eu hymosodwr gwrywaidd o bosibl yn arfog o hyd ag o leiaf un gyllell mewn ystafell ar drydydd llawr yr adeilad. Cafodd uned heddlu ychwanegol ei alw. Wrth i'r uned heddlu ychwanegol gyrraedd, gwnaeth swyddogion eu ffordd i'r trydydd llawr lle canfuon nhw'r dyn yn ei ystafell. I ddechrau roedd y dyn yn eistedd ar soffa a dywedodd wrth y swyddogion ei fod am iddynt adael. Roedd gan y swyddog oedd yn siarad â'r dyn ei Taser yn barod ond wedi'i leoli y tu ôl i'w gefn. Cododd y dyn a dechreuodd symud tuag at ffenestr agored gerllaw. Rhoddodd y swyddog rybudd llafar ac yn y lle cyntaf gwasgarodd ddotiau coch ar y dyn o'r Taser. Cododd y dyn ei goes ar gadair oedd o dan ffenestr agored. Defnyddiodd y swyddog ei Taser, ac wrth iddo wneud hynny, gadawodd y dyn trwy'r ffenestr, gan ddioddef anafiadau difrifol i'r pen wrth lanio. Roedd gwasanaeth yr ambiwlans eisoes yn bresennol yn y fan a rhoddon nhw sylw ar unwaith i'r dyn ar ôl ei gwymp. Cafodd y dyn ei gludo i ysbyty mewn cyflwr difrifol, lle bu farw y diwrnod nesaf. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a) Anaf i'r pen*.

Roedd pymtheg marwolaeth yn ymwneud â **phryder am risg unigolyn o hunan-niweidio, risg o hunanladdiad, neu ei iechyd meddwl**. Yn y fath achosion, nid yw'r unigolyn yn cael ei adrodd na'i ystyried ar goll - codir y pryderon fel arfer â'r heddlu gan drydydd parti, am unigolyn â phryderon iechyd meddwl hysbys. Er enghraifft, gall yr unigolyn fod wedi methu â mynychu apwyntiad neu wiriad lles, neu ei fod wedi dangos arwyddion o fod mewn perygl o hunan-niwiedio neu hunanladdiad. O'r rhain:

- Roedd tri ar ddeg o bobl yn ddynion a dwy yn fenywod.
- Roedd un ar ddeg yn Wyn, pedwar yn Ddu.

- Amrywiai oedrannau'r bobl o 21 i 57. Yr oedrannau mwyaf cyffredin oedd 31 i 40 a 51 i 60, gyda phump o bobl yn y ddau grŵp oedran. Yr oedran ar gyfartaledd oedd 41.
- Marwolaeth trwy ddull hunangyflawnedig oedd y dosbarthiad mwyaf cyffredin (12 o bobl).
- Adroddwyd bod wyth o bobl yn feddw ar gyffuriau a/neu alcohol ar adeg y digwyddiad, neu fod cyffuriau a/neu alcohol yn nodwedd amlwg yn eu ffordd o fyw.

Roedd dau ddigwyddiad yn ymwneud â **defnydd grym**:

- Derbyniodd heddlu alwad yn mynegi pryder am ddiogelwch dyn. Adroddodd y galwr fod y dyn yn aflonydd iawn, a chredai fod ei iechyd meddwl wedi gwaethygu'n ddiweddar. Aeth swyddogion i gyfeiriad y dyn a galwon nhw am ambiwlans. Rhoddodd swyddogion sylw i'r dyn a'i atal. Roedd y swyddogion yn amau ei fod yn dioddef o darfu dwys ar ei ymddygiad. Gosododd swyddogion gyffion dwylo ac atalwyr aelodau wedyn tra'n aros am ambiwlans. Aeth swyddogion gyda'r dyn i ysbyty, ond aeth yn sâl yn ystod y daith. Stopiodd yr ambiwlans wrth i driniaeth frys gael ei rhoi. Parhaodd yr ambiwlans i'r ysbyty lle bu farw ddau ddiwrnod yn ddiweddarach. Disgwylir am achos ei farwolaeth.
- Cafodd heddlu eu galw i bryder am les dyn oedd yn bygwth neidio o falconi pumed llawr. Mynychodd swyddogion yr eiddo, gorfodon nhw fynediad a chanfyddon nhw'r dyn ar y balconi. Cafodd trafodwr heddlu ei alw, ac ymgysylltodd swyddogion â'r dyn, gan geisio ei berswadio i ddod yn ôl i mewn i'r eiddo. Daeth y dyn yn ôl i mewn i'r eiddo am ychydig lle cafodd ei gyfarfod gan y swyddogion cyn dychwelyd i'r balconi. Defnyddiodd un swyddog ei Taser mewn ymdrech i atal y dyn rhag neidio, fodd bynnag parahodd y dyn tuag at y balconi. Tra roedd y dyn ar y balconi, defnyddiodd yr ail swyddog ei Taser ddwy waith ar y dyn, a syrthiodd i'r llawr. Darparwyd sylw meddygol ar unwaith i'r dyn gan barafeddygon. Cafodd ei gymryd i ysbyty mewn ambiwlans lle bu farw yn ddiweddarach. Adroddwyd achos ei farwolaeth fel *1a) Anafiadau lluosog yn gyson â syrthio o uchder*.

Roedd tair marwolaeth ar ddeg **yn rhai domestig**. Mae hyn yn golygu bod yr heddlu wedi ymateb i ddigwyddiad domestig, neu fod amgylchiadau'r cysylltiad wedi ymwneud â hanes o drais domestig, neu fygythiadau a wnaed yn erbyn yr ymadawedig a/neu aelodau'r teulu. Yn y categori hwn:

- Roedd pob un a fu farw yn fenywod.
- Roedd un ar ddeg o'r menywod yn Wyn, un yn Ddu ac un yn Asiaidd.
- Yr oedran ar gyfartaledd oedd 41 oed. Roedd y fenyw ieuengaf yn 27 a'r hynaf yn 55.
- Cafodd y marwolaethau eu dosbarthu fel llofruddiaeth honedig mewn 10 achos. Roedd un farwolaeth yn hunan-gyflawnedig, un yn ddamweiniol, ac roedd un oherwydd achosion naturiol.

Bu farw pedwar o bobl yn dilyn **pryder am ymddygiad bygythiol**. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys ymddygiad bygythiol neu aflonyddu ymhlith pobl mewn sefyllfaoedd annomestig, megis rhwng cymdogion neu ddieithriaid. Yn y categori hwn:

- Roedd tri o bobl yn ddynion. Roedd un yn fenyw.
- Roedd chwech o bobl yn Wyn. Roedd un unigolyn yn Ddu.
- Dau ddosbarthiad marwolaeth oedd llofruddiaeth honedig. Roedd un marwolaeth yn hunan-gyflawnedig ac roedd un yn anhysbys.

Roedd dau ddigwyddiad yn ymwneud â **defnydd grym**:

- Cafodd yr heddlu eu galw i adroddiad o aflonyddu gan ddyn. Pan gyrhaeddodd swyddogion, ymddangosai'r dyn yn aflonydd a gofidus. Gwelwyd y dyn yn dringo allan o ffenestr llawr gwaelod. Eiliadau'n ddiweddarach, ymddangosodd y dyn o giât ochr i mewn i'r ardd flaen. Credai swyddogion fod y dyn yn ceisio gorchuddio'i hun â phetrol a defnyddion nhw chwistrell analluogi PAVA

i'w dawelu. Adroddwyd bod y dyn ar dân. Rhedodd swyddog i'w gerbyd heddlu i gael diffoddwr tân, ac roedd yn gallu diffodd y fflamau eiliadau yn ddiweddarach. Rhoddodd swyddogion gymorth cyntaf a chafodd ambiwlans ei alw i'r fan. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty lle bu farw chwe diwrnod yn ddiweddarach. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a Methiant organau lluosog 1b Niwmonia 1c Anaf llosg ac mewnanadlu hunan-gyflawnedig*.

- Mynychodd yr heddlu adroddiadau o ddyn yn gwneud bygythiadau ac yn achosi difrod â bat pêl-fas. Pan gyrhaeddod y swyddogion, credent fod y dyn o dan ddylanwad cyffuriau a bod angen sylw meddygol arno ar unwaith. Gofynnodd swyddogion am ambiwlans gan iddynt amau bod y dyn yn profi tarfu ymddygiadol dwys. Wrth aros am ambiwlans, cynyddodd pryder y swyddogion am iechyd y dyn. Gyda cymorth aelodau'r cyhoedd, cludodd y swyddogion y dyn i fan heddlu i helpu tawelu'r dyn. Aeth y dyn yn aflonydd, a tharodd fan yr heddlu â'i ben. Wrth i swyddogion geisio rhoi'r dyn yn y fan, gwrthsafodd e. Ataliodd swyddogion ef a gosodwyd atalwyr coesau. Yn fuan wedyn, gwaethygodd iechyd y dyn, a darparodd swyddogion adferiad cardio-anadlol (CPR) hyd y cyrhaeddodd ambiwlans. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty lle bu farw yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Disgwylir am achos ei farwolaeth.

## Cysylltiad arall

Digwyddodd y naw marwolaeth a gofnodwyd yn ymwneud â mathau eraill o gysylltiad a ddigwyddodd yn yr amgylchiadau canlynol.

Bu farw dau ddyn mewn ymdrech i **osgoi cysylltiad â'r heddlu neu arestio**:

- Ceisiodd swyddogion stopio cerbyd, oedd yn ymwneud ag ymlid cychwynnol. Daeth gyrrwr y cerbyd dan amheuaeth allan o'r car a ffodd ar draciau rheilffordd. Chwiliodd swyddogion yr ardal a chanfod y dyn ar draciau'r rheilffordd. Bu farw yn y fan a’r lle. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a. Trydaniad*.
- Adnabu heddlu ddyn oedd yn eisiau am drosedd llofruddiaeth honedig. Credwyd bod gwn yn ei feddiant. Y noson honno, lleolodd tîm gwylio'r heddlu y dyn yn gyrru ei gar. Cafodd cerbydau ymateb arfog eu hanfon i'r ardal. Lleolodd y swyddogion gar y dyn, ac yn dilyn ymlid byr fe wnaethant gyflawni ataliad tactegol ar y cerbyd. Adroddodd swyddogion ei fod yn weladwy trwy ffenestr y gyrrwr yr ymddangosai'r dyn i fod yn dal arf tanio. Aeth swyddogion heddlu at y car a chanfuon nhw'r dyn yn anymwybodol ag anaf sylweddol i'r pen. Darparodd y swyddogion gymorth cyntaf hyd y cyrhaeddodd parafeddygon. Bu farw’r dyn yn y fan a’r lle.  Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a Anaf ergyd gwn i'r pen*.

Bu farw tri o bobl ar ôl i swyddogion heddlu fynychu **adroddiad am aflonyddwch**:

- Cysylltodd aelod o'r cyhoedd â'r heddlu i adrodd am aflonyddwch. Disgrifiodd y galwr glywed sgrechian a gweiddi a sŵn dodrefn yn cael ei symud. Datganodd fod aflonyddwch tebyg wedi digwydd yn rheolaidd yn y cyfeiriad. Graddiodd yr heddlu y digwyddiad am ymateb ar unwaith; fodd bynnag, nid oedd unrhyw uned heddlu yn gallu mynychu. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw galwodd aelod arall o'r cyhoedd yr heddlu ac adroddodd ei fod wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol am fenyw'n syrthio ac yn cael trafferth i anadlu yn yr un cyfeiriad. Adroddodd hefyd ei fod wedi galw gwasanaeth yr ambiwlans. Cysylltwyd â'r heddlu gan wasanaeth yr ambiwlans a gadarnhaodd fod parafeddygon wedi bod i'r cyfeiriad ac wedi canfod menyw yn anymwybodol ag anafiadau sylweddol lluosog i'w phen a'i hwyneb. Adroddodd parafeddygon fod dyn yn bresennol yn y cyfeiriad a dywedon nhw eu bod yn amau ei fod wedi ymosod ar y fenyw. Gofynnon nhw i'r heddlu ddod i'r cyfeiriad. Cyrhaeddodd swyddogion a chafodd y gwryw ei arestio dan amheuaeth o ymosod. Cafodd y fenyw ei chymryd i ysbyty mewn ambiwlans. Bu hi farw dau ddiwrnod ar ôl y digwyddiad. Cafodd achos ei marwolaeth ei adrodd fel anafiadau pen gan rym di-awch.

- Derbyniodd heddlu alwadau lluosog am ddyn yn ymddwyn yn amheus, yn mynd i mewn i adeiladau ac yn achosi difrod i un ohonynt. Adroddwyd bod ganddo ffon golff yn ei feddiant. Cafodd swyddogion eu hanfon i'r ardal a chafodd y dyn ei atal a'i roi mewn cyffion dwylo. Aeth y dyn yn sâl tra roedd gyda'r swyddogion, gan arwain atynt yn gofyn am gymorth meddygol a thynnu'r cyffion dwylo. Cafodd adfywio cardio-anadlol (CPR) ei roi hyd y cyrhaeddodd yr ambiwlans. Cafodd y dyn ei gymryd i ysbyty lle bu farw y diwrnod canlynol. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1 (a) cymhlethdodau o wenwyn cocên*.
- Cafodd heddlu eu galw i adroddiadau am aflonyddwch lle gallai dyn gael ei glywed yn gweiddi, sgrechian ac o bosibl yn achosi difrod o fewn eiddo. Pan gyrhaeddod yr heddlu, roedd y dyn mewn ystafell ymolchi llawr cyntaf. Llwyddodd swyddog i wthio drws yr ystafell ymolchi yn agored a gwelodd fod gwaed a dŵr ar y llawr. Enillodd swyddogion fynediad a chafodd y dyn ei dynnu allan i ardal pen grisiau. Cafodd y dyn ei roi mewn cyffion dwylo a'i atal ar y llawr tra galwodd preswylwyr eraill yr eiddo am ambiwlans. Credai swyddogion fod y dyn yn dioddef o darfu ymddygiadol dwys (ABD) a chafodd yr wybodaeth hon ei chyfathrebu i wasanaeth yr ambiwlans. Ar ôl i swyddogion eraill gyrraedd, cafodd strapiau cyflym eu gosod. Cyrhaeddodd ambiwlans ac arhosodd y dyn dan reolaeth mewn cyffion dwylo a strapiau cyflym ar y llawr. Cafodd ei gymryd i'r ysbyty lle bu farw'n ddiweddarach. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a Llid yr ymennydd bacteriol dwys*.

Bu farw un dyn ar ôl cysylltiad â'r heddlu oedd yn **cynnal ymholiadau ymchwiliad**:

- Cafodd plentyn ei arestio a'i gadw gan yr heddlu dan amheuaeth o stelcio. Cafodd ei ffôn ei feddiannu, a chafodd ei gyfweld a'i roi ar fechnïaeth ag amodau i beidio â phrynu, cael na defnyddio dyfeisiau electronig, gan gynnwys ffonau symudol. Tua pedwar mis yn ddiweddarach, oherwydd gwall dynol ar ran llu'r heddlu, roedd amodau mechnïaeth y plentyn wedi dod i ben, ac roedd 'rhyddhad o dan ymchwiliad' wedi cael ei awdurdodi, oedd yn golygu bod yr heddlu yn parhau i ymchwilio i'r camwedd troseddol honedig, ond heb derfyn amser nac amodau mechnïaeth. Cyfathrebodd llu'r heddlu â chyfreithiwr y teulu fod y fechnïaeth wedi dod i ben, fodd bynnag, nid yw'n hysbys a gafodd yr wybodaeth hon ei throsglwyddo'n uniongyrchol i'r plentyn a'i deulu. Y mis canlynol, derbyniodd un o aelodau teulu'r plentyn alwad o'i ysgol. Esboniodd yr ysgol ei fod wedi cael ei ganfod â ffôn symudol yn ei feddiant. Cafodd y plentyn ei ganfod wedi hongian yn ei gartref yr un diwrnod. Darparodd parafeddygon driniaeth helaeth cyn trosglwyddo'r plentyn i ysbyty, lle cafodd ei farwolaeth ei chyhoeddi yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a Hongian trwy glymiad o gwmpas y gwddf*.

Bu farw dau o bobl mewn un digwyddiad yn ystod **sefyllfa o warchae** gyda'r heddlu:

- Cafodd swyddogion eu galw i gyfeiriad yn dilyn digwyddiad domestig lle dywedwyd bod gan ddyn wn llaw yn ei feddiant ac yn bygwth niweidio'i bartner. Aeth swyddogion i'r cyfeiriad ond symudon nhw i ffwrdd ar ôl i'r dyn eu gwneud yn ymwybodol fod ganddo wn llaw, a daniodd e wedyn. Cafodd swyddogion arfog eu hanfon i'r fan, a chafodd trafodwr heddlu ei alw i mewn. Siaradodd y trafodwr â'r dyn am tua dwy awr. Cafodd ergyd ei chlywed wedyn, wedi'i dilyn gan ddau fang uchel arall wrth i swyddogion daflu grenadau llonyddu i mewn i'r eiddo. Credai swyddogion fod y rhain yn ergydion gwn ychwanegol, a defnyddion nhw ddyrnhwrdd i gael mynediad. Credwyd bod y dyn wedi saethu ei bartner cyn saethu ei hun. Derbyniodd y fenyw a'r dyn gymorth cyntaf ar unwaith a chawsant eu cymryd i ysbyty lle bu farw'r ddau. Cafodd achos ei farwolaeth ei adrodd fel *1a Anaf ergyd gwn i'r pen*.

Bu farw un fenyw **yn dilyn cysylltiad arall â'r heddlu**:

- Cysylltodd aelod o'r cyhoedd a'r heddlu i adodd bod ei gar wedi torri i lawr ar y draffordd mewn lôn fyw, gydag ef a'i wraig yn y car. Cymerodd derbyniwr yr alwad eu lleoliad a

chynghorodd y cwpl i aros y tu mewn i'w cerbyd. Cadarnhaodd derbyniwr yr alwad fod goleuadau rhybudd y car ymlaen a datganodd fod cymorth ar ei ffordd. Funudau'n ddiweddarach, gwrthdarodd cerbyd nwyddau trwm â'r car oedd wedi torri i lawr. Cafodd y dyn a'r fenyw eu cymryd i ysbyty, lle bu'r fenyw farw ddau ddiwrnod yn ddiweddarach. Disgwylir am achos ei marwolaeth.

## Tueddiadau

Yn 2010/11, cafodd newid ei wneud i ddiffiniad y categori hwn. Mae'n cynnwys nawr y marwolaethau hynny yn dilyn cysylltiad arall â'r heddlu a ymchwiliwyd yn annibynnol gan y SAYH, yr IPCC yn flaenorol. Mae'r nifer o achosion a gofnodwyd yn y categori hwn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r nifer o achosion a gafodd eu hymchwilio'n annibynnol. Ni fyddai'n ystyrlon i ddarparu unrhyw ddadansoddiad o duedd ar gyfer y categori hwn. Mae'r marwolaethau a gynhwysir yn y categori hwn yn digwydd mewn amrediad o amgylchiadau, sy'n ei wneud yn anodd i adnabod set benodol o ddigwyddiadau sy'n cyfrif am newidiadau yn y nifer o farwolaethau. Roedd y gyfran gyffredinol o achosion yn ymwneud â phryder am les yn cyfrif am 85% o'r marwolaethau ar ôl cysylltiad a'r heddlu a gafodd ei ymchwilio'n annibynnol - cyfran is nag yn 2022/23.

Yn ystod 2023/24, roedd chwarter o ymchwiliadau i farwolaethau yn dilyn cysylltiad â'r heddlu yn ymwneud ag adroddiadau am bryderon am risg unigolyn o hunan-niweidio, risg hunanladdiad, neu iechyd meddwl. Roedd dauddeg dau y cant o'r marwolaethau yn dilyn cysylltiad â'r heddlu yn ymwneud â'r cartref. Mae'r mathau hyn o bryder am les yn cysylltu â meysydd presennol o waith ar gyfer y SAYH. Gall hyn arwain yn y nifer o'r mathau hyn o ymchwiliadau yn cynyddu a/neu'n ffurfio cyfran fwy o'r marwolaethau 'cysylltiad arall' mae'r SAYH yn ymchwilio iddynt yn annibynnol.

# 8

# Nodyn cefndir

1. O dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, mae gan luoedd yn Lloegr a Chymru ddyletswydd statudol i gyfeirio at y SAYH yr holl farwolaethau yn ystod neu'n dilyn cysylltiad â'r heddlu lle mae honiad neu awgrym y cyfrannodd cysylltiad yr heddlu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at y farwolaeth. Rydym yn ystyried amgylchiadau'r holl atgyfeiriadau ac yn penderfynu a yw ymchwiliad yn angenrheidiol.

2. Ers Ebrill 2006, mae'r SAYH, yr IPCC yn flaenorol, hefyd wedi derbyn atgyfeiriadau gorfodol ar gyfer achosion lle mae rhywun wedi marw yn ystod neu ar ôl cysylltiad â'r heddlu.
   - Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a adnabyddir fel CThEF (Rheoliad 34 o'r Rheoliadau *Cyllid a Thollau (Cwynion a Chamymddwyn) 2005*).
   - yr Awdurdod Meistri Gangiau a Chamddefnydd Llafur a adnabyddir fel y GLAA (Rheoliad 36 o *Reoliadau'r Awdurdod Meistri Gangiau a Chamddefnydd Llafur (Cwynion a Chamymddwyn) 2017*).
   - Yr Asiantaeth Troseddu Difrifol Trefnedig (disodlwyd yn ddiweddarach gan yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol).

   Ers Hydref 2013, rydym hefyd wedi derbyn atgyfeiriadau gorfodol oddi wrth yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA). Hyd at Fawrth 2013, fe wnaethom dderbyn achosion oddi wrth Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA) (Rheoliad 25 o Reoliadau *Asiantaeth Ffiniau'r DU (Cwynion a Chamymddwyn) 2010)*. Ar yr adeg hon cafodd statws asiantaeth weithredol UKBA ei ddwyn i ben. Cafodd ei swyddogaeth eu dwyn yn ôl i'r Swyddfa Gartref del Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI); Gorfodaeth mewnfudo'r DU (UKIE); a Llu Ffiniau'r DU (UKBF). Mae'r SAYH yn parhau i fod ag awdurdodaeth dros y swyddogion a chontractwyr hyn. Felly, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys marwolaethau yn ystod neu'n dilyn cysylltiad â staff o bob un o'r sefydliadau hyn.

3. Cymerodd y SAYH le'r IPCC yn Ionawr 2018. Cafodd y newid hwn ei amlinellu yn y *Ddeddf Plismona a Throseddu Act 2017*.

## Newidiadau a diwygiadau

4. Yn 2010/11, cafodd newid ei wneud i'r ddiffiniad o'r 'marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu'. Mae'n cynnwys nawr y marwolaethau hynny yn dilyn cysylltiad â'r heddlu a ymchwiliwyd yn annibynnol gan y SAYH, (neu'n flaenorol gan yr IPCC). O ganlyniad, rydym wedi newid yr ymagwedd at sut mae'r categori hwn yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn. Gallwch ddysgu mwy yn ein dogfen ganllaw. Nid oes newidiadau eraill wedi cael eu gwneud i ddiffiniadau'r categorïau marwolaeth.

5. Yn 2007, cyhoeddodd yr IPCC nodyn cyngor gweithrediadol i fynd i'r afael ag anghysonderau yn yr atgyfeirio o 'hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn

rhyddhau o ddalfa'r heddlu'. Gofynnwyd i luoedd atgyfeirio unrhyw hunanladdiadau o fewn dau ddiwrnod o ryddhau o ddalfa'r heddlu, neu hunanladdiadau ymddangosiadol a ddigwyddodd mwy na dau ddiwrnod ar ôl rhyddhau, ond lle roedd cysylltiad posibl rhwng yr amser a dreuliwyd yn y ddalfa a'u marwolaeth.

6. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r set fwyaf diweddar o ffigurau ar gyfer pob categori marwolaeth. Yn y cyhoeddiad hwn, mae tair marwolaeth wedi cael eu hychwanegu at ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r addasiadau canlynol wedi cael eu gwneud i ffigurau'r duedd:

- Ar gyfer 2022/23, mae un marwolaeth wedi cael ei hychwanegu at y ffigur 'marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad a'r heddlu' ac mae dwy farwolaeth wedi cael eu hychwanegu at y ffigur 'hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn cysylltiad â'r heddlu' .

Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud i adlewyrchu blwyddyn y farwolaeth yn gywirach ar gyfer marwolaethau sydd wedi cael eu hychwanegu'n ôl-syllol at ffigurau tuedd y blynyddoedd blaenorol. Mae'r rhain yn achosion nad oedd naill ai'n destun ymchwiliad annibynnol neu nad oeddent wedi cael eu hatgyfeirio atom pan gafodd yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol honno ei ryddhau. Yn unol â'n polisi diwygiadau, yn yr enghreifftiau hyn ni chafodd y ffigurau ar gyfer yr adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd eu diwygio.

7. Mae Tabl 6.1 yn amlinellu'r rhesymau dros gadw hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu. Mewn blynyddoedd blaenorol, dangosodd y tabl hwn y nifer o farwolaethau a throednodiadau i amlygu lle roedd rhesymau ychwanegol dros gadw. Oherwydd y swm uchel o farwolaethau a rhesymau lluosog yn 2023/24, y ffigurau a ddangosir yn Nhabl 6.1 yw cyfamswm y nifer o resymau gwahanol dros gadw. Rydym wedi cymryd yr ymagwedd hon ers ein hadroddiad 2018/19.

## Dulliau a diffiniadau

8. Gweler ein dogfen ganllaw am ddiffiniadau manylach ac am wybodaeth am sut mae'r achosion marwolaeth yn cael eu categoreiddio a'u cofnodi. Mae'r ddogfen hon hefyd yn darparu awgrymiadau ar gyfer darllen ychwanegol.

## Polisïau a datganiadau

9. Rydym yn cynhyrchu nifer o bolisïau a datganiadau mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth am:

- gyfrinachedd a diogelwch data
- datganiad o ffynonellau gweinyddol
- polisïau diwygiadau
- cyhoeddi newidiadau i ddulliau
- sicrwydd ansawdd
- mynediad cyn rhyddhau
- strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr
- polisi prisio

## Defnyddwyr, defnyddiau ac ymgysylltu

10. Gellir canfod gwybodaeth am ddefnyddwyr allweddol o'r data a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, a sut y mae'n cael ei ddefnyddio, yn y ddogfen adborth ymgysylltu â defnyddwyr. Mae'n crynhoi hefyd unrhyw adborth a dderbyniwyd ar yr adroddiad marwolaethau blynyddol, ein hymateb iddo, ac unrhyw effaith y gall hwn gael ar naill ai'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad neu'r broses gasglu data.

11. Mae'r adroddiad hwn yn darparu data a gwybodaeth am faes pwnc sensitif iawn. Mae'n cael ei ddefnyddio i hyrwyddo a llunio dadl a thrafodaeth ymhlith heddluoedd a rhanddeilaid eraill a phartïon â diddordeb. Mae'n darparu cyfle i ddefnyddwyr i ddysgu o'r achosion sy'n ymddangos yn yr adroddiad ac i adnabod, gweithredu, a/neu adolygu polisii helpu atal marwolaethau o'r fath rhag digwyddd eto lle'n bosibl.

12. Rydym hefyd yn cynhyrchu astudiaethau manwl a chyhoeddiadau dysgu i gynorthwyo dysgu.

13. Dylai defnyddwyr yr ystadegau hyn gymryd gofal wrth edrych ar gyfres amser y data. Gall fod gollyngiadau oherwydd newidiadau mewn diffiniad categori a natur amrywiol amgylchiadau'r achosion. Mae'r niferoedd bach dan sylw hefyd yn golygu y dylai darllenwyr fod yn ofalus am dynnu casgliadau o ddadansoddiad tuedd gan y gall amrywiadau fod yn fawr.

    Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob marwolaeth berthnasol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn trwy ymarfer dilysu helaeth gyda chydweithwyr mewnol a lluoedd heddlu. Fodd bynnag, ar adegau, gall achos ddod i'r amlwg ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Darllenwch ein polisïau diwygiedig am wybodaeth am sut rydym yn rheoli diwygiadau a gwallau arferol i ddata a gyhoeddwyd.

    Tra gellir gwneud cymariaethau â gwledydd ac awdurdodaethau eraill, mae angen cymryd gofal, oherwydd bod y data yn annhebygol o fod yn uniongyrchol gymaradwy. Mae hyn oherwydd gwahaniaethau mewn dosbarthiadau marwolaeth, neu sut mae manylion eraill wedi cael casglu.

14. Canfyddir y strategaeth ymgysylltu a defnyddwyr yn adran wyth y ddogfen bolisïau a datganiadau.

## Gwybodaeth Ychwanegol

15. Mae ein holl adroddiadau blynyddol ar farwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny ar gael ar ein gwefan.

16. Mae fersiynau electronig o'r tablau yn yr adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan. Yn ogystal, mae tablau cyfres amser ar gael. Mae'r rhain yn edrych ar ethnigrwydd, oedran, a rhyw y bobl a fu farw, a'r lluoedd dan sylw. Mae'r tablau cyfres amser wedi'u trefnu fesul categori marwolaeth, o 2004/05 hyd at y flwyddyn adrodd bresennol.

17. Yn ogystal â'n hadroddiadau blynyddol ar farwolaethau, rydym hefyd yn cyhoeddi astudiaethau ymchwil sy'n archwilio rhai o'r materion sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn yn fanylach. Mae'r astudiaethau hyn ar gael ar dudalennau ymchwil a gwybodaeth ein gwefan.

18. Yn dilyn argymhelliad gan yr Ystadegydd Cenedlaethol yn 2012, cafodd yr adroddiad blynyddol hwn ei asesu gan Awdurdod Ystadegau'r DU a rhoddwyd dynodiad Ystadegau Cenedlaethol iddo.

19. E-bost research@policeconduct.gov.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am ein hadroddiadau marwolaeth blynyddol.

20. Yr amcan ddyddiad cyhoeddi ar gyfer ein hadroddiad nesaf yn cwmpasu data 2024/25 yw Gorffennaf 2025.

# Atodiad A: tablau ychwanegol

### Tabl A1 Digwyddiadau fesul math o farwolaeth a blwyddyn ariannol, 2013/14 i 2023/24

| Digwyddiadau | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn ariannol | | | | | | | | | | |
| Categori | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
| Digwyddiadau traffig ffyrdd | 11 | 13 | 20 | 28 | 27 | 33 | 24 | 20 | 33 | 26 | 29 |
| Saethiadau marwol | 0 | 1 | 3 | 6 | 2 | 3 | 3 | 1 | 2 | 3 | 2 |
| Marwolaethau tra yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny | 11 | 18 | 14 | 14 | 23 | 17 | 18 | 19 | 11 | 23 | 24 |
| Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn y ddalfa^ | 70 | 71 | 61 | 56 | 57 | 63 | 54 | 55 | 57 | 54~ | 68 |
| Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu* | 41 | 43 | 103** | 128 | 172 | 151 | 104 | 96 | 104 | 86~ | 57 |

^ Nodyn cyngor gweithrediadol a gyhoeddwyd yn 2007 ar atgyfeirio'r marwolaethau hyn.

* Newid mewn diffiniad o 'farwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad' yn 2010/11 i gynnwys achosion yn ddarostyngedig i ymchwiliad annibynnol yn unig.

** Ehangu ein hadnoddau ymchwiliol a'n gallu i gynnal ymchwiliadau mwy annibynnol i faterion difrifol a sensitif – mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar nifer y marwolaethau cyswllt eraill yr adroddir amdanynt.

~ Mae'r tabl hwn yn cyflwyno'r set ddiweddaraf o ffigurau ar gyfer y categorïau hyn; nodir unrhyw ychwanegiadau at ddata a gyhoeddwyd yn flaenorol.

### Tabl A2 Math o farwolaeth fesul rhyw, 2023/24

| Rhyw | Digwyddiad traffig ffordd | Saethiadau marwol | Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny | Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu | Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu* |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwrywaidd | 26 | 2 | 22 | 60 | 39 |
| Benywaidd | 6 | 0 | 2 | 8 | 21 |
| Cyfanswm y marwolaethau | **32** | **2** | **24** | **68** | **60** |

* Mae'r categori hwn yn cynnwys achosion sy'n ddarostyngedig i ymchwiliad annibynnol yn unig.

### Table A3 Math o farwolaeth fesul grŵp oedran, 2023/24

| Grŵp oedran | Digwyddiad traffig ffordd | Saethiadau marwol | Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny | Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu | Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu* |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 18 oed | 7 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| 18 - 20 | 4 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 21 - 30 | 8 | 1 | 4 | 7 | 7 |
| 31 - 40 | 5 | 1 | 9 | 19 | 21 |
| 41 - 50 | 2 | 0 | 6 | 17 | 11 |
| 51 - 60 | 2 | 0 | 5 | 18 | 10 |
| 61 a throsodd | 4 | 0 | 0 | 4 | 8 |
| Cyfanswm y marwolaethau | **32** | **2** | **24** | **68** | **60** |

* Mae'r categori hwn yn cynnwys achosion sy'n ddarostyngedig i ymchwiliad annibynnol yn unig.

### Tabl A4 Math o farwolaeth fesul ethnigrwydd, 2023/24

| Grŵp ethnigrwydd | Digwyddiadau traffig ffordd | Saethiadau marwol | Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny | Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu | Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 23 | 2 | 21 | 62 | 44 |
| Du | 3 | 0 | 1 | 2 | 11 |
| Asiaidd^ | 4 | 0 | 0 | 3 | 5 |
| Cymysg | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Arall | 2 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Anhysbys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y marwolaethau | **32** | **2** | **24** | **68** | **60** |

* Mae'r categori hwn yn cynnwys achosion sy'n ddarostyngedig i ymchwiliad annibynnol yn unig.

^ Yn dilyn newidiadau i ddosbarthiad ethnigrwydd gan Swyddfa'r Ystadegau Gwladol, ers 2015/16 mae'r grŵp ethnig Asiaidd yn awr yn cynnwys Tsieineaidd. Roedd hyn yn cael ei gofnodi'n flaenorol fel y grŵp ethnig 'Arall'.

## Tabl A5 Math o farwolaeth fesul awdurdod priodol, 2023/24

| Awdurdod priodol** | Digwyddiad traffig ffordd | Saethiadau marwol | Marwolaethau yn nalfa'r heddlu neu ar ôl hynny | Hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn dalfa'r heddlu | Marwolaethau eraill yn dilyn cysylltiad â'r heddlu* |
|---|---|---|---|---|---|
| Avon & Gwlad yr Haf | 0 | 0 | 0 | 3 | 4 |
| Swydd Bedford | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Swydd Caergrawnt | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| Sir Gaer | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 |
| Dinas Llundain | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cleveland | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Cumbria | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Swydd Derby | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Dyfnaint & Chernyw | 1 | 0 | 2 | 6 | 0 |
| Dorset | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Durham | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyfed-Powys | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Essex | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Gaerloyw | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Manceinion Fwyaf | 3 | 0 | 3 | 1 | 6 |
| Gwent | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Hampshire | 0 | 0 | 1 | 2 | 4 |
| Swydd Hertford | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Glannau Humber | 0 | 0 | 0 | 3 | 2 |
| Caint | 0 | 0 | 0 | 5 | 2 |
| Sir Gaerhirfryn | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| Swydd Gaerlŵr | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| Swydd Lincoln | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Glannau Mersey | 0 | 0 | 3 | 0 | 4 |
| Metropolitan | 6 | 2 | 5 | 4 | 7 |
| Norfolk | 1 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Gogledd Cymru | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| Gogledd Swydd Efrog | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Sir Northampton | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Northumbria | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 |
| Swydd Nottingham | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| De Cymru | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| De Swydd Efrog | 1 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| Swydd Stafford | 0 | 0 | 1 | 0 | 3 |
| Suffolk | 0 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Surrey | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sussex | 0 | 0 | 0 | 6 | 1 |
| Dyffryn Tafwys | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Swydd Warwick | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Gorllewin Mersia | 2 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 3 | 0 | 3 | 4 | 1 |
| Gorllewin Swydd Efrog | 0 | 0 | 0 | 4 | 2 |
| Wiltshire | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain & Heddlu'r Metropolitan | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Heddlu Gorllewin y Canoldir & Heddlu Swydd Stafford | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heddlu Manceinion Fwyaf & Chwnstabliaeth Sir Gaerhirfryn | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Heddlu Manceinion Fwyaf & Heddlu De Cymru & Heddlu Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Swyddfa Gartref ~ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y marwolaethau** | **32** | **2** | **24** | **68** | **60** |

* Mae'r categori hwn yn cynnwys achosion sy'n ddarostyngedig i ymchwiliad annibynnol yn unig.

~ Mae hyn yn cynnwys UKBF, UKIE a UKVI

** Mae'r rhan fwyaf o achosion yn ymwneud ag un awdurdod priodol, lle mae dau dan sylw dangosir y rhain yn y tabl ar linell ar wahân i'r prif gyfrifon ar gyfer yr awdurdodau priodol hynny

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu**
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU

Ffôn: **030 0020 0096**

E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Gwefan: www.policeconduct.gov.uk

Neges destun: 18001 020 8104 1220

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

Hydref 2024

ISBN 978-1-7394778-2-0

© SAYH 2024.

Mae hyn wedi cael ei drwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd sy'n perthyn i drydydd parti.
Mae'n rhaid cael awdurdodiad i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.